# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 29 Mehefin 2020

Amser: 10.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.30-10.00)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

10:00-10:05

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**2.1 SL(5)557 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Datgymhwyso Dros Dro Ddeiliadaeth Swydd) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

(Tudalennau 1 - 17)

**CLA(5)-20-20 - Papur 1** - Adroddiad

**CLA(5)-20-20 - Papur 2** - Rheoliadau

**CLA(5)-20-20 - Papur 3** - Memorandwm Esboniadol

**2.2 SL(5)558 - Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

(Tudalennau 18 - 33)

**CLA(5)-20-20 - Papur 4** - Adroddiad

**CLA(5)-20-20 – Papur 5** – Rheoliadau

**CLA(5)-20-20 – Papur 6** – Memorandwm Esboniadol

2.3 **SL(5)559 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020**

(Tudalennau 34 - 55)

**CLA(5)-20-20 – Papur 7** – Adroddiad

**CLA(5)-20-20 – Papur 8** – Rheoliadau

**CLA(5)-20-20 – Papur 9** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-20-20 – Papur 10** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 16 Mehefin 2020

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

10:05-10:10

3.1 **SL(5)552 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020**

(Tudalennau 56 - 59)

**CLA(5)-20-20 – Papur 11** – Adroddiad

**CLA(5)-20-20 – Papur 12** – Ymateb Llywodraeth Cymru

3.2 **SL(5)555 – Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2020**

(Tudalennau 60 - 71)

**CLA(5)-20-20 – Papur 13** – Adroddiad

**CLA(5)-20-20 – Papur 14** – Ymateb Llywodraeth Cymru

3.3 **SL(5)556 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 72 - 76)

**CLA(5)-20-20 – Papur 15**– Adroddiad

**CLA(5)-20-20 – Papur 16** – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 4 Papur(au) i'w nodi

10:10-10:15

### 4.1 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Cyfarfod Pedrochrog y Gweinidogion Cyllid

(Tudalen 77)

**CLA(5)-15-20 – Papur 17** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 22 Mehefin 2020

### 4.2 Llythyr gan y Prif Weinidog: Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020

(Tudalennau 78 - 80)

**CLA(5)-20-20 – Papur 18** – Llythyr gan Brif Weinidog Cymru, 22 Mehefin 2020

**CLA(5)-20-20 – Papur 19** – Datganiad ysgrifenedig

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

10:15

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Amgylchedd – trafod yr adroddiad drafft

10:15-10:30 (Tudalennau 81 - 112)

**CLA(5)-20-20 – Papur 20** – Adroddiad drafft

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach – trafod yr adroddiad drafft

10:30-11:00 (Tudalennau 113 - 137)

**CLA(5)-20-20 – Papur 21** – Adroddiad drafft

## 8 Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru – canlyniad yr ymgynghoriad

11:00-11:15 (Tudalennau 138 - 169)

**CLA(5)-20-20 – Papur 22** – Papur eglurhaol

**CLA(5)-20-20 – Papur 23** – Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 6 Gorffennaf 2020.**

# SL(5)557 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Datgymhwyso Dros Dro Ddeiliadaeth Swydd) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 203(9) a (10) a pharagraff 4(1)(a), (b) ac (e) o Atodlen 2, paragraff 4(1)(a) ac (f) o Atodlen 3, a pharagraff 5(a) o Atodlen 5 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a byddant yn dod i rym ar 5 Gorffennaf 2020. Bydd y Rheoliadau yn datgymhwyso uchafsymiau cyfnod deiliadaeth swydd aelodau o fyrddau a phwyllgorau cyrff penodol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i ymdrin â'r amharu ar apwyntiadau yn ystod y pandemig COVID-19.

Y cyrff a gwmpesir gan ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn yw Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, Pwyllgor Gwasanaethau a rennir Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Bydd y Rheoliadau'n galluogi aelodau byrddau a phwyllgorau sy'n nesáu at ddiwedd eu deiliadaeth i barhau yn y swydd os penodir neu ailbenodir yr aelodau hynny yn ystod y 'cyfnod perthnasol' (sef y cyfnod sy'n dechrau ar 5 Gorffennaf 2020 ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021).

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3 (ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Atodiad A i'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys copi o ddatganiad gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus dyddiedig 23 Mawrth 2020 sy'n ymwneud â phrosesau penodiadau cyhoeddus yng Nghymru yn ystod y darpariaethau iechyd cyhoeddus i gadw pellter cymdeithasol o ganlyniad i COVID-19.

Mae'r datganiad yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi atal yr holl ymgyrchoedd Penodiadau Cyhoeddus Gweinidogol. Bydd ymgyrchoedd sydd wedi'u hatal yn ailddechrau ym mis Medi 2020, fodd bynnag, bydd y dyddiad ailddechrau hwnnw yn parhau i gael ei adolygu yn rheolaidd. O ran y cyrff y mae eu hymgyrchoedd wedi'u hatal, ac na allant drosglwyddo swydd wag yn gyfreithiol, neu y byddai swydd

wag yn ansefydlogi'r bwrdd, gall Gweinidogion ymestyn cyfnodau aelodau presennol neu wneud penodiad uniongyrchol heb gystadleuaeth, nes y gellir cynnal cystadleuaeth.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**23 Mehefin 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 585 (Cy. 133)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Datgymhwyso Dros Dro Ddeiliadaeth Swydd) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn datgymhwyso dros dro ddarpariaethau penodol sy'n ymwneud â deiliadaeth swydd aelodau o fyrddau a phwyllgorau cyrff penodol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i ymdrin â'r amharu ar apwyntiadau yn ystod y pandemig COVID-19, er mwyn galluogi aelodau o fyrddau a phwyllgorau sy'n nesáu at ddiwedd eu deiliadaeth i barhau yn y swydd.

Mae rheoliad 2 yn datgymhwyso dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd aelodau ac aelodau cyswllt Byrddau Iechyd Lleol fel y'i rhagnodir yn Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009.

Mae rheoliad 3 yn datgymhwyso dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru fel y'i rhagnodir yn Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009.

Mae rheoliad 4 yn datgymhwyso dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd cadeirydd ac is-gadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'i aelodau nad ydynt yn swyddogion fel y'i rhagnodir yn Rheoliadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (Cymru) 2009.

Mae rheoliad 5 yn datgymhwyso dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd cadeirydd ac is-gadeirydd Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre fel y'i rhagnodir yn Rheoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012.

Mae rheoliad 6 yn datgymhwyso dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd cadeirydd ac is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys fel y'i rhagnodir yn Rheoliadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (Cymru) 2014.

Mae rheoliad 7 yn datgymhwyso dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd aelod nad yw'n swyddog o Addysg a Gwella Iechyd Cymru fel y'i rhagnodir yn Rheoliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2017.

Mae rheoliad 8 yn galluogi unrhyw berson a benodir neu a ailbenodir yn unol â'r addasiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn, i barhau â'i gyfnod swydd ac i adael y swydd yn unol â thelerau ei benodiad neu ei ailbenodiad ar ôl diwedd y cyfnod perthnasol, pan fydd datgymhwyso dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd yn peidio â chael effaith.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 585 (Cy. 133)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Datgymhwyso Dros Dro Ddeiliadaeth Swydd) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

*Gwnaed* *10 Mehefin 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *11 Mehefin 2020*

*Yn dod i rym* *5 Gorffennaf 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), a pharagraff 4(1)(a), (b) ac (e) o Atodlen 2 iddi, paragraff 4(1)(a) ac (f) o Atodlen 3 iddi a pharagraff 5(a) o Atodlen 5 iddi.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Datgymhwyso Dros Dro Ddeiliadaeth Swydd) (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 5 Gorffennaf 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y cyfnod perthnasol" yw'r cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021.

**Deiliadaeth swydd aelod ac aelod cyswllt o Fyrddau Iechyd Lleol**

**2.** Nid yw rheoliadau 6(5) a 7(5) o Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a

(**1**) 2006 p. 42. *Gweler* adran 206(1) am y diffiniad o "regulations".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Gweithdrefnau) (Cymru) 2009(**1**) yn gymwys yn ystod y cyfnod perthnasol.

**Deiliadaeth swydd cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru**

**3.** Nid yw rheoliad 14(3) o Reoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009(**2**) yn gymwys yn ystod y cyfnod perthnasol.

**Deiliadaeth swydd cadeirydd ac is-gadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'i aelodau nad ydynt yn swyddogion**

**4.** Nid yw rheoliadau 6(5) a 7(4) o Reoliadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (Cymru) 2009(**3**) yn gymwys yn ystod y cyfnod perthnasol.

**Deiliadaeth swydd cadeirydd neu is-gadeirydd Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre**

**5.** Nid yw rheoliad 8(5) o Reoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012(**4**) yn gymwys yn ystod y cyfnod perthnasol.

**Deiliadaeth swydd cadeirydd ac is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys**

**6.** Nid yw rheoliadau 6(5) a 7(4) o Reoliadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (Cymru) 2014(**5**) yn gymwys yn ystod y cyfnod perthnasol.

**Deiliadaeth swydd aelodau nad ydynt yn swyddogion o Addysg a Gwella Iechyd Cymru**

**7.** Yn rheoliad 4(3) o Reoliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2017(**6**), nid yw'r geiriau "ond ni chaniateir i berson fod yn aelod nad yw'n swyddog am gyfnod cyfan sy'n hwy nag 8 mlynedd" yn gymwys yn ystod y cyfnod perthnasol.

---

(**1**) O.S. 2009/779 (Cy. 67), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) O.S. 2009/1385 (Cy. 141), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**3**) O.S. 2009/3097 (Cy. 270), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**4**) O.S. 2012/1261 (Cy. 156), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**5**) O.S. 2014/566 (Cy. 67), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**6**) O.S. 2017/909 (Cy. 221).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwedd y cyfnod perthnasol**

**8.** Caiff unrhyw berson a benodir neu a ailbenodir yn unol â'r Rheoliadau y cyfeirir atynt yn rheoliadau 2 i 7 o'r Rheoliadau hyn, fel y'u haddesir, barhau i ddal a gadael y swydd, ar ddiwedd y cyfnod perthnasol, yn unol â thelerau penodiad neu ailbenodiad y person hwnnw.

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
10 Mehefin 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Datgymhwyso Dros Dro Ddeiliadaeth Swydd) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ynghyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Datgymhwyso Dros Dro Ddeiliadaeth Swydd) (Cymru) (Coronafeirws) 2020. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Vaughan Gething AS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
11 Mehefin 2020

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn datgymhwyso dros dro'r uchafswm deiliadaeth swydd cyffredinol er mwyn galluogi ailbenodi aelodau bwrdd neu bwyllgor i Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau), Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Felindre (NHSSSC), Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC), y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC) ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Mae'r Rheoliadau yn datgymhwyso'r rheoliadau canlynol dros dro:

- Rheoliadau 6(5) a 7(5) o Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009
- Rheoliad 14(3) o Reoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009
- Rheoliadau 6(5) a 7(4) o Reoliadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (Cymru) 2009
- Rheoliad 8(5) o Reoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012
- Rheoliadau 6(5) a 7(4) o Reoliadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (Cymru) 2014
- Rheoliad 4(3) o Reoliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2017

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gosodir yr Offeryn Statudol (OS) hwn o dan y 'Weithdrefn Negyddol' ac mewn ymateb i'r amharu ar benodiadau cyhoeddus yn ystod y sefyllfa COVID-19.

Mae Llywodraeth Cymru, gan ymgynghori â'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, wedi atal yr holl ymgyrchoedd Penodiadau Cyhoeddus gan Weinidogion dros dro tan fis Medi 2020 mewn ymateb i'r sefyllfa COVID-19 (adolygir y dyddiad hwn yn rheolaidd gan Weinidogion Cymru).

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau yn unol â phwerau a roddir gan adran 203(9) a (10) o, a pharagraff 4(1)(a), (b) ac (e) o Atodlen 2, paragraff 4(1)(a) a (f) o Atodlen 3, a pharagraff 5(a) o Atodlen 5 i, Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ('Deddf 2006').

Sefydlir Byrddau Iechyd Lleol ('BILlau') yng Nghymru o dan adran 11 o Ddeddf 2006. Mae paragraff 4(1)(a) a (b) o Atodlen 2 i Ddeddf 2006 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â phenodi a deiliadaeth swydd cadeirydd, is-gadeirydd ac aelodau eraill BILl. At hynny, mae paragraff 4(1)(e) yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â phenodi a deiliadaeth swydd aelodau unrhyw bwyllgor BILl.

Sefydlir Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru o dan adran 18 o Ddeddf 2006. Mae paragraff 4(1)(a) a (f) o Atodlen 3 i Ddeddf 2006 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â deiliadaeth swydd cadeiryddion a

chyfarwyddwyr ymddiriedolaeth y GIG a phenodi, cyfansoddi ac arfer swyddogaethau gan bwyllgor ac is-bwyllgor o ymddiriedolaeth y GIG (ni waeth a yw'n cynnwys aelodau o'r bwrdd ai peidio).

Sefydlir Awdurdodau Iechyd Arbennig o dan adran 22 o Ddeddf 2006. Mae paragraff 5(a) o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â phenodi a deiliadaeth swydd cadeirydd, is-gadeirydd ac aelodau Awdurdod Iechyd Arbennig.

Bydd yr offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Diben y Rheoliadau hyn yw datgymhwyso'r uchafswm deiliadaeth swydd sydd wedi ei gynnwys yn y rheoliadau penodedig ar gyfer aelodau byrddau/pwyllgorau'r GIG ar gyfer cyfnod amser cyfyngedig mewn ymateb i'r pandemig COVID-19.

Er bod Cod Llywodraethiant y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn darparu rhywfaint o hyblygrwydd i sicrhau bod byrddau/pwyllgorau'r GIG yn gallu parhau i weithredu, bydd yn ofynnol i unrhyw berson sy'n nesáu at ddiwedd ei uchafswm deiliadaeth swydd, fel y rhagnodir mewn deddfwriaeth, adael ei swydd gan na fydd yn gymwys mwyach i gael ei ailbenodi. Mae'r rheoliadau presennol, yn y mwyafrif o achosion, yn gosod cyfyngiadau ar berson rhag cael ei benodi am gyfnod nad yw'n hwy na phedair blynedd a dal swydd fel aelod neu aelod cyswllt am gyfnod cyfan sy'n hwy nag wyth mlynedd.

Disgwylir i ddeiliadaeth nifer o benodiadau allweddol ar fyrddau/pwyllgorau iechyd ddirwyn i ben yn ystod y 9 mis nesaf. Yn sgil yr ataliad dros dro presennol i'r holl benodiadau cyhoeddus yng Nghymru a'r amser a fydd yn ofynnol ar gyfer ailddechrau'r broses benodi pan gaiff y cyfyngiadau eu codi, bydd rhaid i fyrddau a phwyllgorau gario swyddi allweddol gwag. Bydd hyn yn cynnwys swydd is-gadeirydd mewn un bwrdd iechyd.

Yn ystod cyfnod sydd mor allweddol a heriol ar gyfer y sector iechyd wrth ymateb i effaith COVID-19, ac adfer ohoni, bydd yn hanfodol na chaiff swyddi gwag eu cario gan y byrddau a'r pwyllgorau er mwyn iddynt allu gweithredu'n iawn a chefnogi llywodraethiant da ac effeithiol gan y Bwrdd.

Bydd y Rheoliadau yn datgymhwyso'r uchafswm deiliadaeth swydd statudol er mwyn sicrhau bod unrhyw aelod o fwrdd neu bwyllgor sy'n nesáu at ddiwedd ei uchafswm deiliadaeth swydd statudol yn gymwys i gael ei ailbenodi. Bydd unrhyw ailbenodiadau yn unol â Chod Llywodraethiant y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus sy'n cynnwys caniatáu i benodai ddal swydd am uchafswm o ddeng mlynedd.

## 5. Ymgynghori

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus oherwydd y brys a oedd ynghlwm wrth gyflwyno'r newid polisi hwn mewn ymateb uniongyrchol i gyfyngiadau COVID-19. Ymgysylltwyd ynglŷn â'r newidiadau â rhwydwaith Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd y byrddau iechyd ac maent yn gefnogol oherwydd fe'i codwyd yn y lle cyntaf fel pryder allweddol mewn trafodaethau ynglŷn â'r trefniadau llywodraethiant wrth ymateb i COVID-19.

Diben yr offeryn yw galluogi'r darpariaethau i ddod i effaith ymhen digon o amser ar gyfer mynd i'r afael â swyddi gwag sydd ar fin codi ar fyrddau a phwyllgorau. Heb y rheoliadau diwygio ar gyfer cyrff y GIG, byddai swyddi anweithredol allweddol yn cael eu gadael yn wag a'r cydbwysedd rhwng aelodau gweithredol/anweithredol ar fyrddau/pwyllgorau a'r gallu i graffu'n effeithiol ar benderfyniadau yn ystod y cyfnod heriol hwn ar gyfer byrddau iechyd, felly, yn cael eu cyfaddawdu.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Yr Opsiynau

Mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

Opsiwn 1:-gwneud dim, cadw'r sefyllfa reoleiddio bresennol fel y mae mewn grym ar hyn o bryd.

Opsiwn 2:-datgymhwyso'r Rheoliadau canlynol dros dro:

- Rheoliadau 6 (5) a 7 (5) o Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009
- Rheoliad 14(3) o Reoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009
- Rheoliadau 6(5) a 7(4) o Reoliadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (Cymru) 2009
- Rheoliad 8(5) o Reoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012
- Rheoliadau 6(5) a 7(4) o Reoliadau Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (Cymru) 2014
- Rheoliad 4(3) o Reoliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2017

**Opsiwn 1: gwneud dim, cadw’r Rheoliadau fel y maent mewn grym ar hyn o bryd**

Mae penodiadau a wneir gan Weinidogion Cymru i gyrff y GIG yn dod o fewn cylch gwaith y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus (ac eithrio Is-gadeirydd NHSSSC, Dirprwy Gadeirydd WHSSC ac aelodau anweithredol ac Is-gadeirydd EASC). Rhaid i'r penodiadau gael eu gwneud yn unol â'r Cod Penodiadau Cyhoeddus a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r corff penodol.

Ym mis Mawrth 2020 ataliodd Llywodraeth Cymru holl Ymgyrchoedd Penodiadau Cyhoeddus y Gweinidogion gan Lywodraeth Cymru dros dro tan fis Medi 2020 mewn ymateb i COVID-19 (adolygir y dyddiad hwn yn rheolaidd gan Weinidogion Cymru). Y flaenoriaeth yw diogelu staff, aelodau'r panel cynghori ar asesu ac ymgeiswyr sy'n rhan o'r ymgyrchoedd. Wrth wneud hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gallu parhau i weithredu drwy gymryd y camau a ddarperir yn y Cod Penodiadau Cyhoeddus, gan gadw byrddau a phwyllgorau yn sefydlog a sicrhau bod cworwm gan y ddau. Cedwir at y Cod a'i egwyddorion yn ôl yr arfer.

Un o agweddau allweddol y Cod yw bod yn rhaid i benodiadau gael eu gwneud yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored a bod rhagdybiaeth gref na ddylai unrhyw unigolyn wasanaethu mwy na dau gyfnod na gwasanaethu mewn unrhyw un swydd am fwy na deng mlynedd. Er hynny, mae'r Cod yn cydnabod bod amgylchiadau lle y gellir gwneud penodiad heb gystadleuaeth neu ar gyfer gwasanaethu am gyfnodau ychwanegol.

Ymgynghorwyd â'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus mewn perthynas â phenderfyniad Gweinidogion Cymru i atal ymgyrchoedd penodiadau cyhoeddus yng Nghymru dros dro a chyhoeddodd ddatganiad yn cadarnhau bod y Cod, yn ystod cyfnod yr ataliad dros dro, yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymestyn penodiadau presennol aelodau neu wneud penodiad heb gystadleuaeth nes y bydd y sefyllfa'n gwella. Gweler Atodiad A am y datganiad llawn a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd ar 23 Mawrth 2020.

Mae'r hyblygrwydd a ddarperir gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn rhoi sylw i'r materion a allai godi yn dilyn atal penodiadau cyhoeddus dros dro gan ei fod yn caniatáu:

- i gyfnod person gael ei ymestyn os oedd ei benodiad am gyfnod byrrach na'r uchafswm a ganiateir o dan y rheoliadau perthnasol (4 blynedd yw'r uchafswm yn gyffredinol);
- i berson sy'n nesáu at ddiwedd ei gyfnod cyntaf gael ei ailbenodi gan Weinidogion Cymru heb gystadleuaeth am ail gyfnod.

Er hynny, bydd yn ofynnol i bersonau sy'n nesáu at ddiwedd eu deiliadaeth ac sydd wedi cyrraedd yr uchafswm cyfnod cyffredinol fel y'i rhagnodir mewn deddfwriaeth, adael y rôl gan na fyddant bellach yn gymwys i gael eu hailbenodi. Bydd yn rhaid i'r swyddi hyn yng nghyrff y GIG aros yn wag hyd nes y caiff yr ataliad dros dro ar benodiadau cyhoeddus ei godi. Ar hyn o bryd, nid oes sicrwydd pryd y caiff y rhain eu codi a bydd swyddi gwag yn parhau hyd nes y cwblheir proses benodi lwyddiannus a gall hyn gymryd hyd at chwe mis. Gallai hyn arwain o bosibl at nifer o swyddi gwag allweddol ar fyrddau a phwyllgorau yn ystod y cyfnod allweddol a heriol hwn ar gyfer y sector iechyd.

Heb reoliadau diwygio y risg o bosibl yw na fydd cyrff y GIG yn gallu cydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol sy'n ymwneud â deiliadaeth aelod o'r bwrdd/pwyllgor.

Os bydd ymgyrchoedd penodiadau cyhoeddus yn parhau i gael eu hatal dros dro y tu hwnt i fis Medi 2020 gallai'r ôl-groniad hefyd olygu bod nifer o aelodau bwrdd/pwyllgor yn ymadael ar yr un pryd gan achosi ansefydlogrwydd posibl a diffyg trylwyredd mewn llywodraethiant.

**Opsiwn 2: - Datgymhwyso dros dro uchafswm cyfnod swydd**

Amcan y Rheoliadau yw datgymhwyso uchafswm cyfnod cyffredinol y ddeiliadaeth hyd 31 Mawrth 2021 er mwyn galluogi aelodau o fwrdd a phwyllgor y GIG sy'n cyrraedd y terfyn presennol yn ystod y pandemig COVID-19 a'r cyfnod adfer cychwynnol i gael eu hailbenodi.

Effaith y dull hwn fydd galluogi aelodau bwrdd/pwyllgor presennol sy'n cyrraedd uchafswm eu deiliadaeth i gael eu hailbenodi am gyfnod newydd. Bydd yr ailbenodiadau yn dal i gyd-fynd â'r Cod Penodiadau Cyhoeddus ac mewn rhai achosion, er enghraifft ailbenodi am drydydd cyfnod, byddai angen cael cymeradwyaeth hefyd gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

Bydd hyd yr ailbenodiad yn cael ei asesu'n unigol ar gyfer pob aelod o'r bwrdd/ pwyllgor gan roi sylw i berfformiad a phresenoldeb yr unigolyn, dyddiadau terfynu penodiadau eraill ar y bwrdd/pwyllgor a'r angen i gynnal llywodraethiant/sefydlogrwydd effeithiol. Byddai hyd unrhyw ailbenodiadau a wnaed

o dan y Rheoliadau hefyd yn cael ei bennu yn unol â'r Cod sy'n nodi rhagdybiaeth gref na ddylai unrhyw unigolyn wasanaethu mewn un swydd am fwy na deng mlynedd.

Mae datganiad diweddar y Comisiynydd yng ngoleuni’r pandemig COVID-19 yn adlewyrchu'r ddarpariaeth hon. Mae'n datgan bod yr holl benodiadau cyhoeddus yng Nghymru wedi'u hatal dros dro ac yn egluro bod y Cod yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymestyn penodiadau aelodau presennol neu wneud penodiad heb gystadleuaeth nes y bydd y sefyllfa'n gwella.

Mae'r hyblygrwydd a ddarperir gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn mynd i'r afael â llawer o'r materion a allai godi yn dilyn atal penodiadau cyhoeddus dros dro gan ei fod yn caniatáu:

- ymestyn cyfnod person os oedd ei benodiad am gyfnod byrrach na'r uchafswm a ganiateir o dan y rheoliadau perthnasol (4 blynedd yw'r uchafswm yn gyffredinol);

- i berson sy'n nesáu at ddiwedd ei gyfnod cyntaf gael ei ailbenodi yn y ffordd arferol, ond am gyfnod byrrach i gwmpasu cyfnod yr ataliad dros dro; a

- Mae ailbenodiadau y tu hwnt i ail gyfnod yn debygol o gael eu hystyried yn fwy ffafriol gan y Comisiynydd o ystyried yr amgylchiadau eithriadol sy’n deillio o COVID-19, a chytunodd y Comisiynydd ar yr ataliad dros dro i benodiadau cyhoeddus gan Weinidogion Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

Er hynny, nid yw hyn yn mynd i'r afael â'r sefyllfa lle mae aelod o fwrdd/pwyllgor y GIG yn cyrraedd uchafswm ei ddeiliadaeth. Ni waeth beth fo'r hyblygrwydd a ddarperir gan y Comisiynydd, heb ddatgymhwyso'r uchafswm cyfnod deiliadaeth a bennir yn y rheoliadau perthnasol, ni fyddai'n bosibl ailbenodi'r aelodau hynny o'r Bwrdd a'r pwyllgorau sy’n cyrraedd uchafswm eu deiliadaeth na sicrhau eu bod yn cael eu penodi heb dorri'r rheoliadau.

Gan ddefnyddio'r gallu yn y Cod i Weinidogion benodi ymgeisydd heb gystadleuaeth (yn bennaf drwy ailbenodiadau) mewn achosion eithriadol a datgymhwyso'r uchafswm cyfnod mewn rheoliadau gellir sicrhau yr ymdrinnir â phob penodiad sy'n nesáu at ddiwedd eu deiliadaeth yn ystod cyfnod cyfyngiadau COVID-19 a'r cyfnod adfer cychwynnol, gan wneud y newid lleiaf posibl yn unig i'r rheoliadau presennol er mwyn cyflawni hyn.

Bydd y cyfnod y bydd y Rheoliadau yn parhau mewn effaith yn sicrhau bod yr holl benodiadau sy'n nesáu at ddiwedd eu deiliadaeth yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau COVID-19 a'r cyfnod adfer cychwynnol yn cael eu cwmpasu, gan alluogi byrddau a phwyllgorau'r GIG i weithredu'n iawn, cadw profiad yn ystod yr argyfwng presennol, cefnogi llywodraethiant da ac effeithiol ar y Bwrdd, a bodloni eu gofynion cyfreithiol.

Heb y newid hwn, mae risg y gallai fod nifer allweddol o swyddi gwag ar fyrddau a phwyllgorau'r cyrff GIG hyn. Os bydd ymgyrchoedd penodiadau cyhoeddus yn parhau i gael eu hatal dros dro y tu hwnt i fis Medi 2020, mae risg ddifrifol y bydd ôl-groniad o benodiadau, gyda nifer o aelodau Bwrdd a phwyllgorau'r GIG o bosibl yn ymadael ar yr un pryd gan achosi ansefydlogrwydd a cholli trylwyredd mewn llywodraethiant.

**7. Costau a manteision**

**Opsiwn 1: Gwneud dim, cadw'r Rheoliadau Aelodaeth perthnasol fel y maent mewn grym ar hyn o bryd**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol na photensial ar gyfer arbedion costau yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Er hynny, nid yw'r opsiwn hwn yn cyflawni unrhyw rai o'r manteision polisi datganedig sy'n gysylltiedig â diwygio'r Rheoliadau perthnasol ac mae'n peri risgiau sylweddol o ran colli sgiliau allweddol ac arbenigedd ar fyrddau/pwyllgorau yn ystod y cyfnod heriol hwn. Gallai hyn olygu bod angen i Lywodraeth Cymru, mewn rhai achosion, ddarparu cymorth cynghorol i fyrddau/pwyllgorau gyda swyddi gwag allweddol a allai arwain at gostau ychwanegol o'i gymharu â thaliadau o dan drefniadau penodiadau cyhoeddus.

**Opsiwn 2: Datgymhwyso dros dro uchafswm y cyfnod swydd**

Mae datgymhwyso'r rheoliadau perthnasol yn y ffordd a gynigir yn Rhan 1 â'r potensial i dynnu costau cyfle bach iawn ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus gan y bydd angen i Weinidogion Cymru geisio cymeradwyaeth cyn penodi aelod i drydydd cyfnod.

Gall fod rhywfaint o arbedion cost byrdymor i Weinidogion Cymru yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, o ran peidio ag ymgymryd ag ymarferion penodiadau cyhoeddus yn ystod cyfnod y rheoliadau diwygio.

Ni ragwelir unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer cyrff y GIG.

Bydd yn caniatáu i fyrddau a phwyllgorau'r GIG weithredu'n iawn, cadw profiad yn ystod yr argyfwng presennol, cefnogi llywodraethiant da ac effeithiol gan y Bwrdd, a bodloni eu gofynion cyfreithiol.

**8. Ymgynghori**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus oherwydd y brys a oedd ynghlwm wrth gyflwyno'r newid polisi hwn mewn ymateb uniongyrchol i gyfyngiadau COVID-19.

**9. Asesu’r gystadleuaeth**

Ar ôl cwblhau Prawf Hidlo'r Gystadleuaeth penderfynwyd nad oes unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth.

**10. Adolygu ar ôl gweithredu**

Mae effaith y Rheoliadau hyn yn gyfyngedig o ran amser i lai na thair blynedd felly nid oes angen adolygiad.

**ATODIAD A**

**Datganiad Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ar brosesau penodiadau cyhoeddus yng Nghymru yn ystod darpariaethau iechyd y cyhoedd mewn perthynas â chadw pellter cymdeithasol oherwydd COVID-19. 23 Mawrth 2020**

● Mae Llywodraeth Cymru yn atal yr holl ymgyrchoedd Penodiadau Cyhoeddus gan Weinidogion dros dro gan ddechrau ar unwaith hyd nes yr hysbysir fel arall. Y flaenoriaeth yw diogelu staff, aelodau'r panel cynghori ar asesu ac ymgeiswyr sy'n rhan o'r ymgyrchoedd.

● Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gallu gweithredu drwy gymryd camau sydd wedi eu cael drwy fandad yn y Cod Penodiadau Cyhoeddus, gan gadw byrddau yn sefydlog a sicrhau bod ganddynt gworwm. Cedwir at y Cod a'i egwyddorion yn ôl yr arfer. Cytunwyd ar y camau canlynol gyda'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

● Bydd Gweinidogion yn atal dros dro gystadlaethau penodiadau cyhoeddus y bwriedir iddynt gael eu cynnal yn ystod y 6 mis nesaf, a'u hailddechrau ym mis Medi 2020. Adolygir y dyddiad ailddechrau hwn yn rheolaidd wrth i ymateb iechyd y cyhoedd i COVID-19 ddatblygu.

● Yn achos cyrff yr ataliwyd eu hymgyrchoedd dros dro, ac na allant yn gyfreithiol gario swydd wag neu y byddai swydd wag yn ansefydlogi'r bwrdd, gall Gweinidogion, yn unol â'r Cod Llywodraethiant, ymestyn aelodau presennol y bwrdd neu wneud penodiad uniongyrchol heb gystadleuaeth, hyd nes y gellir cynnal cystadleuaeth.


● Bydd estyniadau yn yr achosion hyn am gyfnod o hyd at 12 mis (31 Mawrth 2021), gan ganiatáu i Weinidogion Cymru amrywio dyddiadau ailddechrau gwahanol ymgyrchoedd os byddant yn dymuno gwneud hynny. Mae darpariaethau'r Cod ar yr estyniadau yn Adran 3.5 yn parhau'n gymwys.

● Bydd y Comisiynydd yn parhau i gael ei hysbysu o estyniadau arfaethedig a wneir i aelodau sydd yn eu hail gyfnod neu gyfnodau dilynol, neu i'r rheini sydd wedi rhoi deng mlynedd o wasanaeth, yn unol ag Adran 3.6 o'r Cod.

● Bydd unrhyw benodiadau cyhoeddus uniongyrchol arfaethedig yn cael eu cyflwyno i'r Comisiynydd ar gyfer ymgynghori arnynt cyn gwneud cyhoeddiad yn unol ag Adran 3.3 o'r Cod.

● Pan fydd ymgyrchoedd yn ailddechrau o fis Medi 2020 ymlaen (adolygir y dyddiad hwn yn rheolaidd gan Weinidogion Cymru), dylai unrhyw aelodau/gadeiryddion yr ymestynnwyd eu cyfnod yn y swydd/a benodwyd o dan Adrannau 3.3 a 3.6

oherwydd yr ataliwyd ymgyrch dros dro, adael eu swyddi cyn gynted ag y deuir o hyd i benodai parhaol ac y gall y penodai hwnnw ddechrau yn y swydd.



*Fersiwn: 1*
*Dyddiad adolygu: 1 Gorffennaf 2020*

# SL(5)558 – Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010") yn ei gwneud yn ofynnol i werthwyr nwyddau, sy'n cyflenwi bagiau siopa untro at ddiben caniatáu i'r nwyddau hynny gael eu cludo ymaith neu eu danfon, godi tâl am bob bag a gyflenwir.

Mae bagiau siopa untro a ddefnyddir i ddanfon neu gasglu nwyddau ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i esemptiad dros dro rhag y tâl. Diben yr esemptiad dros dro yw lliniaru, cyhyd ag y bo modd, y risg o drosglwyddo feirws COVID-19 (coronafeirws), drwy systemau danfon a chasglu, a chynyddu effeithlonrwydd systemau danfon, drwy ddefnyddio bagiau siopa untro i gludo nwyddau.

Daw'r cyfnod esemptio presennol i ben ar 8 Gorffennaf 2020. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2010 drwy ymestyn y cyfnod esemptio i 31 Rhagfyr 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu nad yw Llywodraeth Cymru wedi gallu ymgynghori'n eang ynghylch y Rheoliadau hyn "*oherwydd yr amserlen sydd ar gael i gyflwyno'r Rheoliadau hyn a'r pwysau parhaus ar randdeiliaid*". Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi bod camau wedi'u cymryd i gysylltu â chyrff sy'n cynrychioli manwerthwyr Cymru er mwyn cael eu barn am ymestyn y cyfnod esemptio.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**22 Mehefin 2020**

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

## 2020 Rhif 593 (Cy. 134)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

# Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan bwerau yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 ac maent yn diwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 (O.S. 2010/2880 (Cy. 238)) ("Rheoliadau 2010").

Mae Rheoliadau 2010, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol, yn ei gwneud yn ofynnol i werthwyr nwyddau sy'n cyflenwi bagiau siopa untro at ddiben caniatáu i'r nwyddau hynny gael eu cludo ymaith neu eu danfon, godi tâl am bob bag a gyflenwir.

Mae bagiau siopa untro a ddefnyddir i ddanfon neu gasglu nwyddau ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i esemptiad dros dro rhag y tâl. Mae cyfnod yr esemptiad dros dro wedi ei nodi ym mharagraff 1(1A) o Atodlen 1 i Reoliadau 2010. Daw'r cyfnod esemptio presennol i ben ar 8 Gorffennaf 2020.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1 (esemptiadau) i Reoliadau 2010 drwy estyn cyfnod yr esemptiad hyd 31 Rhagfyr 2020.

Diben yr esemptiad dros dro yw lliniaru, cyhyd ag y bo modd, y risg o drosglwyddo feirws COVID-19 (coronafeirws), drwy systemau danfon a chasglu, a chynyddu effeithlonrwydd systemau danfon, drwy ddefnyddio bagiau siopa untro i gludo nwyddau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Is-adran Ansawdd yr

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Amgylchedd, Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 593 (Cy. 134)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Mehefin 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *15 Mehefin 2020* |
| *Yn dod i rym* | *9 Gorffennaf 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 77(1) a (2) a 90(3) o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008(**1**), a pharagraff 1 o Atodlen 6 iddi, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020.

(2) Deuant i rym ar 9 Gorffennaf 2020.

**Diwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010(**2**) wedi eu diwygio yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn Atodlen 1, ym mharagraff 1(1A), yn lle "8 Gorffennaf 2020" rhodder "31 Rhagfyr 2020".

(**1**) 2008 p. 27. Yn rhinwedd adran 77(3)(b) o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol at ddiben gwneud rheoliadau o dan Atodlen 6 i'r Ddeddf honno. Mae diwygiadau i adran 77 ac Atodlen 6 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 2010/2880 (Cy. 238), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/414 (Cy. 89); mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Hannah Blythin*
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol o dan awdurdod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

12 Mehefin 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

Mae’r Memorandwm Esboniadol hwn wedi cael ei baratoi gan Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru, ac fe’i gosodir gerbron y Senedd ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn ddarlun teg a rhesymol o Reoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygiad) (Rhif 2) 2020. Rwy’n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau’r costau tebygol.

Hannah Blythyn
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
15 Mehefin 2020

## 1. Disgrifiad

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 (“Rheoliadau “2010”), fel nad yw’r gofyniad i godi tâl am fagiau siopa untro (“bagiau untro”) yn berthnasol i fagiau a ddefnyddir dim ond i gludo nwyddau a brynir fel rhan o wasanaeth anfon nwyddau groser neu fel rhan o wasanaeth sy’n darparu ar gyfer casglu nwyddau groser.

Esemptiad dros dro fydd hwn a bydd yn dod i rym ar 9 Gorffennaf 2020 ac yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020.

Cafodd eithriad dros dro ei gyflwyno ym mis Ebrill 2020 am gyfnod cychwynnol o dri mis o dan Reoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) 2020 (“Rheoliadau Diwygio 2020”). Bwriedir i’r Rheoliadau hyn ddod i rym ar y diwrnod ar ôl i’r esemptiad cychwynnol ddod i ben ar 8 Gorffennaf.

## 2. Materion sydd o ddiddordeb penodol i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Yn yr argyfwng iechyd y cyhoedd presennol, ystyrir y bydd y mesur a roddir ar waith gan y Rheoliadau hyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020.

## 3. Y Cefndir Deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan bwerau yn adrannau 77 a 90 o Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, ac maent yn diwygio Rheoliadau 2010. Yn rhinwedd gweithrediad adrannau 77 a 90 o’r Ddeddf honno, maent yn ddarostyngedig i’r weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1 i Reoliadau 2010 i alluogi esemptiad dros dro o’r tâl am fagiau a ddefnyddir dim ond ar gyfer anfon neu gasglu nwyddau groser. Esemptiad dros dro fydd hwn, rhwng 9 Gorffennaf a 31 Rhagfyr 2020.

Ers cyflwyno’r tâl am fagiau untro, mae nifer o archfarchnadoedd naill ai wedi gosod tâl cyfradd safonol am unrhyw fagiau a ddefnyddir wrth anfon nwyddau groser i’r cartref, neu wedi cael gwared â bagiau yn llwyr wrth anfon nwyddau groser i’r cartref, gan ffafrio defnyddio opsiwn “di-fag”. Dyma pan gaiff eitemau unigol eu hanfon mewn crât ac yna eu dadlwytho gan y cwsmer yn ei gartref, cyn dychwelyd y crât i’r gyrrwr.

Yn ystod y argyfwng COVID-19 presennol, mae pryderon wedi cael eu lleisio ynghylch nwyddau a anfonir yn “ddi-fag”, gan fod perygl y bydd y feirws yn cael ei drosglwyddo rhwng y gyrrwr a’r cwsmer. I helpu i leihau’r perygl hwnnw, mae manwerthwyr nawr wedi dileu’r opsiwn “di-fag” o’u gwasanaeth ac yn hytrach, pan fo’n bosibl, maent yn gadael nwyddau mewn bagiau ar garreg y drws i osgoi cysylltiad.

Mae hyn yn peri nifer o broblemau mewn perthynas â’r tâl. Cyflwynwyd y tâl yn 2011 gyda’r nod o newid ymddygiad siopwyr, gan eu hannog i ddefnyddio bagiau y gellir eu hailddefnyddio yn lle bagiau untro. Y sail resymegol oedd y gallai cwsmeriaid osgoi’r tâl drwy ddefnyddio bagiau y gellir eu hailddefnyddio. Fodd bynnag, o ganlyniad i atal yr opsiwn di-fag ar gyfer anfon nwyddau, ar sail canllawiau iechyd y cyhoedd i helpu i atal y feirws rhag lledaenu, mae’r opsiwn i osgoi’r tâl bellach wedi cael ei ddileu. Mae hyn yn tanseilio’r sail resymegol y tu ôl i’r tâl o ran newid ymddygiad.

Roedd y tâl yn cael ei godi am fagiau untro i annog cwsmeriaid i ddefnyddio bagiau y gellir eu hailddefnyddio. O ran cynhesu byd-eang posibl, mae bagiau y gellir eu hailgylchu yn well ar gyfer yr amgylchedd. Fodd bynnag, ymhlith y bagiau sy’n addas ar gyfer anfon nwyddau i’r cartref, fel arfer mae bagiau y gellir eu hailddefnyddio wedi eu gwneud o blastig mwy trwchus. Dim ond os ydynt yn cael eu defnyddio llawer o weithiau y maent yn fwy effeithlon o ran carbon. Fel arall mae bagiau y gellir eu hailddefnyddio’n fwy niweidiol i’r amgylchedd na’r bagiau untro y codir tâl amdanynt. Mae swyddogion yn credu y bydd yr esemptiad ar gyfer nwyddau sy’n cael eu hanfon i’r cartref yn annog defnyddio bagiau ysgafnach. O ystyried y cynnydd yn y nwyddau sy’n cael eu hanfon i’r cartref yng Nghymru ers dechrau’r pandemig, mae swyddogion yn credu mai dyma’r opsiwn lleiaf niweidiol, o gymharu â bagiau mwy trwchus, nes y gellir dod o hyd i opsiynau sy’n well ar gyfer yr amgylchedd.

Ers cyflwyno cyfyngiadau symud i atal COVID-19 rhag cael ei drosglwyddo, mae llawer o fanwerthwyr nwyddau groser, gan gynnwys archfarchnadoedd, siopau annibynnol a busnesau bwyd, naill wedi cynyddu eu gwasanaethau anfon nwyddau neu wedi cyflwyno gwasanaethau o’r fath am y tro cyntaf. Mae manwerthwyr bwyd arbenigol fel cigyddion, siopau llysiau, poptai a siopau delicatessen wedi dibynnu ar wasanaethau anfon nwyddau i oroesi, neu hyd yn oed i ffynnu yn ystod y cyfyngiadau symud. Maent wedi gweld masnach yn cynyddu 40%, er bod nifer yr ymwelwyr â’r stryd fawr wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i’r cyfyngiadau symud[1]. Yn ôl y Gymdeithas Siopau

[1] https://www.thegrocer.co.uk/consumer-trends/specialist-food-and-drink-stores-see-40-sales-hike-in-april/604786.article

Cyfleustra, mae ei haelodau wedi darparu gwasanaeth anfon nwyddau i'r cartref 600,000 o weithiau ledled y DU ers dechrau'r cyfyngiadau symud.

Mae archfarchnadoedd wedi cynyddu eu capasiti i anfon nwyddau sawl gwaith cymaint. Er enghraifft, mae Tesco wedi cynyddu eu capasiti i anfon nwyddau i'r cartref o tua 600,000 o archebion yr wythnos cyn dechrau'r pandemig i dros 1.2 miliwn[2] o archebion yr wythnos (erbyn diwedd wythnos gyntaf mis Mai). Gwnaethant ganolbwyntio ar ymateb i geisiadau gan bobl sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai y gofynnwyd iddynt warchod eu hunain. Yn yr un modd, mae Marks & Spencer a Sainsbury's wedi estyn eu gwasanaethau[3] anfon nwyddau ar yr un diwrnod ar gyfer bwyd a nwyddau hanfodol ar gyfer y cartref yn sylweddol, neu wedi cyflwyno gwasanaethau o'r fath.

## 5. Ymgynghoriad

O ganlyniad i'r amserlen sydd ar gael ar gyfer cyflwyno'r Rheoliadau hyn, a'r pwysau parhaus ar randdeiliaid, mae ein gallu i ymgynghori yn helaeth ar y ddeddfwriaeth wedi cael ei gyfyngu. Fodd bynnag, ceisiwyd barn ar yr esemptiad a'r angen iddo barhau gan fanwerthwyr Cymru a'u gwahanol gyrff cynrychiadol. Roedd yr adborth yn awgrymu, o ystyried yr angen i barhau â mesurau cadw pellter cymdeithasol, y byddent o blaid estyn yr esemptiad.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

### Opsiynau

Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried yn yr Asesiad hwn:

Opsiwn 1: Gwneud dim. Gadael i'r esemptiad cychwynnol ddod i ben ar 8 Gorffennaf, gan ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr godi tâl am fagiau untro pan fyddant yn anfon nwyddau groser i'r cartref neu'n darparu gwasanaeth casglu.

Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 i esemptio bagiau untro a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau anfon a chasglu nwyddau groser o'r tâl rhwng 9 Gorffennaf a 31 Rhagfyr **(yr opsiwn a ffefrir)**

[2] https://www.bbc.co.uk/news/business-52441772
[3] https://www.bbc.co.uk/news/business-52545028

**Dadansoddiad Cost a Manteision**

O ystyried yr amser a'r data sydd ar gael, ni fu'n bosibl cynnal asesiad meintioledig o gostau a manteision tebygol y cynigion. Mae'r adran ganlynol yn rhoi disgrifiad o'r effeithiau tebygol.

**Opsiwn 1 – Gwneud dim**

Dyma'r opsiwn llinell sylfaen ac o'r herwydd nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Mae Rheoliadau 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr godi tâl am bob bag untro a roddir ar gyfer nwyddau sy'n cael eu cludo o'r siop neu eu hanfon i'r cartref. Mae nifer o esemptiadau at ddibenion iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd ar gyfer bagiau a ddefnyddir dim ond ar gyfer cario eitemau fel pysgod amrwd, planhigion neu hadau mewn pridd, eitemau miniog fel cyllyll, bwydydd heb eu lapio neu wedi eu lapio'n rhannol neu nwyddau presgripsiwn.

O dan Reoliadau 2010 caiff sefydliadau trydydd sector elwa ar enillion y tâl. Mae manwerthwyr yn cael eu hannog ond nid eu gorfodi i roi'r enillion i achosion da, yn enwedig achosion sydd o fudd i amgylchedd Cymru. Nid yw llawer o fanwerthwyr bellach yn defnyddio bagiau untro y mae'r tâl yn berthnasol iddynt. Fodd bynnag, rydym wedi cael ar ddeall eu bod yn aml yn parhau i roi'r enillion o werthu pob math o fag siopa arall i achosion da.

O dan Reoliadau 2010 mae awdurdodau lleol cael eu penodi'n weinyddwyr y tâl, ac yn cymryd unrhyw gamau gorfodi. Fel arfer gwneir hyn yn unol â gwybodaeth sy'n dod i law, drwy drafod â manwerthwyr i egluro gofynion y Rheoliadau iddynt, er mwyn eu hannog i gydymffurfio drwy gydsyniad. Rydym yn deall bod cwynion yn gymharol brin ac nid oes angen cymryd camau gorfodi yn aml. Fodd bynnag, ar gyfer achosion cyson o dorri'r Rheoliadau, mae gan awdurdodau lleol yr opsiwn i weithredu sancsiynau sifil drwy roi cosb ariannol sefydlog neu amrywiol.

<u>**Costau**</u>

**Opsiwn 2 – Parhau â'r esemptiad o'r tâl ar gyfer bagiau untro sy'n cael eu defnyddio i alluogi anfon nwyddau i'r cartref neu wasanaethau casglu nwyddau groser**

<u>Awdurdodau Lleol</u>

O dan yr opsiwn hwn ni fydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal unrhyw weithgareddau gorfodi, ac ni fydd yn ofynnol mwyach iddynt orfodi'r tâl mewn perthynas ag anfon neu gasglu nwyddau. Disgwylir arbedion bach i awdurdodau lleol yn ystod yr esemptiad mewn perthynas â gweithgareddau gorfodi.

Fodd bynnag, pe bai awdurdodau lleol yn penderfynu ymdrin ag achosion o dorri'r Rheoliadau hyn, gallai fod rhai costau cychwynnol bach am hyfforddiant. Rydym yn cymryd yn ganiataol y bydd cost weinyddol untro yn bosibl ar gyfer pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru, wrth iddynt ymgyfarwyddo â'r newidiadau arfaethedig. Fodd bynnag, gan fod hwn yn newid rheoleiddiol bach a chymharol syml, nid yw ailhyfforddi wedi cael ei gostio yma.

Manwerthwyr

Mae'n bosibl y bydd cost fach, untro i fanwerthwyr am ailhyfforddi staff a diwygio prosesau bilio neu systemau til i ddileu'r tâl mewn perthynas ag anfon nwyddau. O dan Reoliadau 2010 gellid cydbwyso'r gost hon yn erbyn enillion y tâl y disgwylir iddynt gael eu rhoi i achosion elusennol, gan yr ystyrir hon yn "gost resymol". Fodd bynnag, gan ei bod yn debygol y byddai unrhyw gostau o'r fath wedi cael eu talu pan gafodd yr esemptiad ei gyflwyno gyntaf ym mis Ebrill 2020, mae'n annhebygol y byddai unrhyw gostau eraill yn codi mewn perthynas â'r estyniad newydd hwn a'r Rheoliadau hyn.

Mae'n debygol y bydd yr opsiwn hwn yn arwain at gynnydd yn nifer y bagiau untro sy'n cael eu defnyddio (o gymharu ag Opsiwn 1), a byddai'n rhaid i'r manwerthwr dalu'r gost hon. Fodd bynnag, nid ystyrir cost prynu bagiau oddi wrth gyfanwerthwr yn "gost resymol", a'r manwerthwr a ddylai fod wedi'i thalu bod amser. Mae'n debygol y byddai unrhyw gynnydd mewn costau yn cael ei drosglwyddo i'r cwsmer yn anuniongyrchol.

Mae'n ofynnol i fanwerthwyr gadw cofnodion blynyddol o'r bagiau untro maent yn eu gwerthu. Fodd bynnag, nid yw data ar gyfer mis Ebrill a mis Mai ar gael hyd yn hyn, felly, ni fu'n bosibl meintioli effaith yr esemptiad cychwynnol a roddwyd ar waith gan Reoliadau Diwygio 2020.

Dibenion elusennol yng Nghymru

At ddibenion yr Asesiad Effaith Reoleiddiol hwn nid ydym wedi llwyddo i nodi'r effaith mae'r esemptiad dros dro wedi'i chael ar elusennau/achosion da yng Nghymru. Nid yw'r rhan fwyaf o gadwyni o archfarchnadoedd bellach yn gwerthu bagiau untro yn eu siopau. Mae hyn wedi lleihau'r enillion net sy'n cael eu rhoi at ddibenion elusennol. Gallai'r cynnydd yn nifer y bagiau untro a ddefnyddir ar gyfer nwyddau a anfonir i'r cartref yn ystod y pandemig COVID-

19 fod wedi arwain at ragor o arian yn cael ei roi pe bai'r tâl yn dal i gael ei godi. Er nad yw rhoi enillion net y tâl i achosion da yn ofyniad cyfreithiol i fanwerthwyr, mae ymchwil flaenorol[4] yn awgrymu bod y rhan fwyaf ohonynt yn gwneud hynny, gydag achosion elusennol sy'n gysylltiedig ag iechyd a phrosiectau cymunedol yn derbyn y rhan fwyaf o'r arian.

I fynd i'r afael â'r posibilrwydd o elusennau'n colli rhoddion, yn ystod yr esemptiad, mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu at sefydliadau manwerthu i ofyn iddynt ystyried rhoi i elusennau amgylcheddol swm sy'n cyfateb i unrhyw enillion a fyddai wedi cael eu codi drwy godi'r tâl i gwsmeriaid.

Y Trysorlys

Mae'n bosibl y bydd cost fach fesul bag i'r Trysorlys, gan na fyddant yn derbyn TAW ar werthiannau bagiau a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau anfon a chasglu nwyddau. Oherwydd diffyg data ar werthiannau bagiau siopa yn ystod cyfnod cyntaf y pandemig y cyfeirir ato uchod, ni fu'n bosibl meintioli hyn ar hyn o bryd.

Yr Amgylchedd

Y sail resymegol dros gyflwyno tâl am fagiau untro yn 2011 oedd lleihau'r ddibyniaeth ar fagiau tafladwy, ac annog pobl i ddefnyddio bagiau y gellid eu hailddefnyddio – gan osgoi defnyddio adnoddau'n ddiangen. Roedd y polisi hwn yn rhagweld na fyddai cwsmeriaid yn prynu ond y bagiau sydd eu hangen arnynt. O dan amgylchiadau arferol byddai hyn yn gweithio. Yn ystod y pandemig gofynnir i gwsmeriaid i fynd i siopau'n llai aml, ac mae llawer wedi addasu i hyn drwy ddefnyddio gwasanaethau anfon neu gasglu nwyddau wythnosol.

## Manteision

### Opsiwn 2 – Parhau â'r esemptiad o'r tâl ar gyfer bagiau untro a ddefnyddir i alluogi gwasanaethau anfon a chasglu nwyddau groser

Iechyd y Cyhoedd

[4] https://llyw.cymru/ymchwil-am-werthiant-defnydd-bagiau-siopa-yng-nghymru

Disgwylir y bydd estyn yr esemptiad yn arwain at fanteision mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd, am ei bod bellach yn glir y bydd angen parhau â'r mesurau hunanynysu, gwarchod a chadw pellter cymdeithasol am nifer o fisoedd, o bosibl nes bod y bygythiad gan y feirws wedi'i ddileu. Yn y bôn nid yw'r gofyniad i ddiogelu iechyd y cyhoedd a oedd yn sail i gyflwyno esemptiad ym mis Ebrill wedi newid. Mae hyn yn awgrymu bod angen parhaus i leihau'r cyfleoedd i'r feirws gael ei drosglwyddo drwy fesurau fel anfon nwyddau groser i garreg y drws, sy'n lleihau cysylltiad agos rhwng unigolion – yn enwedig am fod astudiaeth wedi dangos y gall y feirws fyw ar arwynebau plastig am hyd at dri diwrnod. Er i'r Asiantaeth Safonau Bwyd ddod i'r casgliad bod y risg o drosglwyddo'r feirws drwy gyffwrdd â deunyddiau pecynnu bwyd yn gymharol isel, y brif fantais yw lleihau'r angen am gysylltiad agos rhwng y gyrwyr a'r cwsmeriad.

Manwerthwyr

Y prif fanteision i fusnesau manwerthu yw llai o absenoldeb oherwydd salwch ymhlith gyrwyr sy'n cludo nwyddau, sy'n gallu gwneud eu gwaith heb ddod i gysylltiad â chwsmeriaid. Felly maent yn gallu dilyn mesurau cadw pellter cymdeithasol yn effeithiol.

Mae hefyd yn eu galluogi i wneud eu gwaith yn gyflymach. Mae cwsmeriaid yn gallu llwytho a dadlwytho nwyddau'n gyflymach. Mae hyn yn ddefnyddiol yn ystod y pandemig, gan fod archfarchnadoedd wedi ceisio rhoi blaenoriaeth i geisiadau am wasanaethau anfon nwyddau gan grwpiau sy'n agored i niwed neu sy'n hunanynysu.

Cwsmeriaid

Mae'r cwsmeriaid hynny sydd yn aml yn talu am fagiau untro a ddefnyddir ar gyfer cludo nwyddau yn elwa o ganlyniad i'r tâl yn cael ei ddileu (tua 40c – 50c bob archeb).

Yn Amgylchedd

Y sail resymegol dros gyflwyno tâl am fagiau untro yn 2011 oedd lleihau'r ddibyniaeth ar fagiau tafladwy, ac annog pobl i ddefnyddio bagiau y gellid eu hailddefnyddio – gan osgoi defnyddio adnoddau'n ddiangen. Roedd y polisi hwn yn rhagweld na fyddai cwsmeriaid yn prynu ond y bagiau sydd eu hangen arnynt. O dan amgylchiadau arferol byddai hyn yn gweithio. Yn ystod y pandemig gofynnir i gwsmeriaid i fynd i siopau'n llai aml, ac mae llawer wedi

addasu i hyn drwy ddefnyddio gwasanaethau anfon neu gasglu nwyddau wythnosol.

Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n debygol y bydd defnyddio bagiau trymach y gellir eu hailddefnyddio yn arwain at gwsmeriaid yn cronni niferoedd uchel o fagiau o'r fath gartref. Mewn gwirionedd ni fydd y bagiau hyn yn cael eu hailddefnyddio. Os nad ydynt yn cael eu hailddefnyddio, mae dadansoddiadau o gylchred oes bagiau y gellir eu hailddefnyddio'n dangos eu bod yn cael effaith drymach ar yr amgylchedd na bagiau ysgafnach. Mae swyddogion yn credu ei bod yn bosibl y bydd yr esemptiad ar gyfer nwyddau a anfonir i'r cartref yn annog manwerthwyr i ddefnyddio bagiau ysgafnach at y diben hwn. Mae'r rhain yn llai niweidiol i'r amgylchedd os nad ydynt yn cael eu hailddefnyddio na bagiau y gellir eu hailddefnyddio os ydynt yn cael eu defnyddio unwaith yn unig.

Cyn y pandemig roedd swyddogion yn poeni am aelwydydd peidio â bod yn gyson o ran ailddefnyddio bagiau plastig, gan arwain at gronni bagiau. Mae swyddogion wedi bod yn ystyried pa bolisïau y gellir eu defnyddio i newid ymddygiad. Mae angen i'r gwaith o lunio polisïau yn y maes hwn ystyried y newidiadau i'r dirwedd fanwerthu ehangach ac ymddygiad cwsmeriaid mewn perthynas â COVID-19. Mae trafod â'r rhanddeiliaid perthnasol wedi bod yn gymhleth o ganlyniad i'r amgylchiadau presennol, ac mae'n debygol y bydd datrysiad llawn yn cymryd dros chwe mis. Fodd bynnag, byddai amserlen o'r fath yn ddigon i wneud rhywfaint o gynnydd mewn perthynas â'r drafodaeth am opsiynau sy'n helpu'r amgylchedd sydd hefyd yn ategu'r gwaith o ddiogelu iechyd y cyhoedd.

**<u>Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir</u>**

**Opsiwn 2** yw'r opsiwn a ffefrir

Bydd esemptiad dros dro ar gyfer bagiau untro a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau anfon a chasglu nwyddau yn helpu manwerthwyr i weithredu rheolau cadw pellter cymdeithasol wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn, wrth atal cwsmeriaid rhag cronni bagiau mwy trwchus y gellir eu hailddefnyddio, na fyddent yn cael eu hailddefnyddio mewn gwirionedd, yn eu cartrefi. Felly, bydd hyn yn gwneud cyfraniad pwysig at y nodau llesiant canlynol yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

- Cymru ffyniannus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang;
- Cymru iachach;

- Cymru fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus.

Mae’r dull hwn hefyd yn rhoi ar waith y pum ffordd o weithio a amlinellir o dan yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Cenedlaethau’r Dyfodol 2015.

## Profion effaith penodol

### Y Gymraeg

Nid oes goblygiadau o ran effaith gadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg.

### Hawliau Plant

Ni nodwyd gwrthdaro â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac nid oes effaith negyddol ar blant na phobl ifanc.

### Preifatrwydd

Nid oes goblygiadau o ran effaith ar faterion preifatrwydd.

### Asesiad Effaith Cyfiawnder

Er nad oes Asesiad Effaith Cyfiawnder ffurfiol wedi’i gynnal, ni nodwyd effaith wrth ystyried y Rheoliadau hyn.

## Asesu’r Gystadleuaeth

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb cadarnhaol neu negyddol** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae’r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae’r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae’r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda’i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau’r rheoliad yn effeithio ar gynaliadwyedd rhai cwmnïau yn fwy nag eraill? | Na fyddai |
| **C5**: A yw’r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint busnesau/sefydliad? | Nac ydyw |
| **C6**: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu? | Na fyddai |
| **C7**: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw’r sector yn gweld newidiadau technolegol cyflym? | Nac ydyw |
| **C9**: A fyddai’r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

Eitem 2.3

# SL(5)559 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020

## Cefndir a diben

Gwneir y Rheoliadau hyn wrth arfer y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan adrannau 45B, 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984.

Mae'r Rheoliadau'n gosod gofyniad ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n dod o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i faes awyr, maes hofrenyddion neu borthladd môr yng Nghymru ("gweithredwyr") i ddarparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd benodol yn ymwneud â'r feirws i deithwyr.

Mae'n ofynnol i'r gweithredwyr:

- Sicrhau bod dolen i'r tudalennau perthnasol ar wefan gov.uk a gwefan llyw.cymru pan fydd teithwyr yn archebu taith neu'n cofrestru ar gyfer taith ar-lein, neu gyfeirio teithwyr at y tudalennau hyn pan fyddant yn archebu neu'n cofrestru dros y ffôn (Rheoliad 3);
- Darparu'r datganiad gwybodaeth iechyd cyhoeddus yn yr Atodlen i'r Rheoliadau, i deithwyr pan fyddant ar y cwch neu'r awyren (Rheoliad 4).

Mae rheoliad 5 yn darparu eithriad i'r gofynion a osodir ar Weithredwyr os yw'r person sy'n cael y wybodaeth yn annhebygol o allu ei deall.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer troseddau, cosbau ac erlyniadau. Gellir rhoi hysbysiad cosb benodediig o £4,000 i unrhyw un yr amheuir ei fod wedi cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau erbyn 29 Mehefin 2020, ac o leiaf bob 21 diwrnod wedi hynny. Mae darpariaeth yn Rheoliad 11 i'r Rheoliadau hyn ddod i ben ar ddiwedd y 7fed diwrnod o Fehefin 2021.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1) Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae Rheoliad 3(1) yn dweud bod yn rhaid darparu gwybodaeth benodol i deithwyr pan fyddant yn archebu taith **ac** wrth gofrestru ar gyfer taith, a bod union fanylion y wybodaeth honno i'w gweld yn rheoliad 3(2). Fodd bynnag, dim ond y wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu wrth archebu taith sy'n cael

nodi yn rheoliad 3(2) (a hynny gan fod rheoliad 3(2) yn croesgyfeirio at reoliad 3(1)(a) yn unig). Yn ôl a ddeallwn, y bwriad oedd i reoliad 3(2) gynnwys y wybodaeth y byddai angen ei darparu wrth archebu taith ac wrth gofrestru.

**2) Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae Rheoliad 10 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020. Nodir yn rheoliad 10(2)(h), *"yn Atodlen 1, yn is-baragraff (d), yn lle "ei ddogfen" rhodder "dogfen""*. Mae dau baragraff yn Atodlen 1 sy'n cynnwys is-baragraff (d). Byddai'n ddefnyddiol pe bai rheoliad 10 yn cyfeirio'n benodol at "baragraff 1, is-baragraff (d)" lle mae'r geiriau "*ei ddogfen*" yn ymddangos.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1) Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Gwnaed y Rheoliadau hyn ar 5.38pm ar 15 Mehefin 2020 a chawsant eu gosod gerbron y Senedd ar 16 Mehefin 2020. Daeth y Rheoliadau i rym yn unol â rheoliadau 1(2) a (3). Daw Rheoliadau 2 i 9 i rym ar 17 Mehefin 2020, a daeth rheoliadau 1, 10 ac 11 i rym pan wnaed y Rheoliadau. Mae hyn yn golygu bod y Rheoliadau wedi'u gosod gerbron y Senedd ar ôl iddynt ddod i rym (yn rhannol), ac mae hefyd yn golygu na chadwyd at y confensiwn i offerynnau statudol beidio â dod i rym yn gynt na 21 diwrnod ar ôl y dyddiad y cawsant eu gosod.

Yn ei Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn dweud, *"Credir yn yr argyfwng iechyd cyhoeddus cyfredol y dylai'r mesurau y bydd y Rheoliadau yn eu gweithredu gael eu rhoi ar waith ar fyrder. O ganlyniad, nid ydynt yn dilyn y confensiwn na ddylai llai na 21 diwrnod fynd heibio rhwng gosod y Rheoliadau a'u gweld yn dod i rym.*

Yn ei llythyr at y Llywydd, dyddiedig 16 Mehefin 2020, mae Llywodraeth Cymru yn egluro bod y gwaith o ddatblygu polisi ar y cyd ar gyfer teithio rhyngwladol wedi cael ei arwain gan Lywodraeth y DU, mewn cydweithrediad â'r Llywodraethau Datganoledig, i ddatblygu dull unedig o weithredu drwy'r DU. Daeth Rheoliadau cyfatebol i rym yn Lloegr a'r Alban ar 8 Mehefin fel y gwnaeth Rheolau Statudol Gogledd Iwerddon.

Mae'r llythyr hefyd yn nodi bod y *"Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 y bydd angen iddynt, er sicrhau eglurder cyfreithiol, ddod i rym ar unwaith. Daw'r darpariaethau eraill i rym ar ôl gosod yr offeryn. Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 niwrnod y tro hwn yn golygu y caiff y Rheoliadau ddod i rym ar 17 Mehefin 2020 ac oherwydd y posibiliad y gall hediadau ailddechrau ac er mwyn parhau â'r ymagwedd unedig a chysondeb â gweddill y DU, bernir bod y cyfnod byrrach yn angenrheidiol yn yr achos hwn a bod modd ei gyfiawnhau."*

**2) Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus nac asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod hyn i'w briodoli i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen i ddatblygu ymateb iechyd cyhoeddus brys ac, o'r herwydd, yr angen i roi'r Rheoliadau hyn ar waith ar frys. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod "*asesiad cychwynnol yn awgrymu na chaiff y Rheoliadau hyn fawr o effaith ar weithredwyr*".

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

**Craffu Technegol**

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

1.1. Mae cynghorwyr cyfreithiol y Senedd wedi tynnu sylw at wall croesgyfeirio yn rheoliad 3(2). Bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Rheoliadau er mwyn cywiro hwn pan fydd y cyfle cyntaf yn codi.

1.2. Mae cynghorwyr cyfreithiol y Senedd hefyd wedi nodi rhywfaint o amwysedd yn y diwygiad a wneir gan reoliad 10(2)(h) i Atodlen 1 i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020. Gan fod y geiriau sy'n cael eu diwygio ("*ei ddogfen*") yn ymddangos mewn un paragraff (d) yn unig yn yr Atodlen mae'n glir lle y gwneir y diwygiad. Serch hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r cyfarwyddiad yn rheoliad 10(2)(h) ar y cyfle cyntaf i ddileu unrhyw risg o amwysedd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**22 Mehefin 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

**2020 Rhif 595 (Cy. 136)**

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r perygl i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2). Mae adran 45B o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaethau at ddiben (ymhlith pethau eraill) atal perygl i iechyd y cyhoedd a ddaw o lestrau, awyrennau, trenau neu gludiant arall yn cyrraedd unrhyw fan.

Mae'r Rheoliadau yn gosod gofyniad ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n dod o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i faes awyr, maes hofrenyddion neu borthladd môr yng Nghymru ("gweithredwyr") i ddarparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd benodol sy'n ymwneud â'r feirws i deithwyr.

Mae rheoliad 3 yn gosod gofynion ar weithredwyr ar adeg archebu taith a chofrestru ar gyfer taith. Pan fo'r archebu neu'r cofrestru yn digwydd ar lein, mae'r rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr i roi ar gael i deithwyr ddolen i'r tudalennau perthnasol ar wefan gov.uk a gwefan llyw.cymru . Pan fo'r archebu neu'r cofrestru yn digwydd dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, mae'n ofynnol i weithredwyr gyfeirio'r teithiwr at y tudalennau hyn.

Mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr ddarparu'r datganiad gwybodaeth iechyd y cyhoedd yn yr Atodlen i deithwyr tra bônt ar y llestr neu'r awyren.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae rheoliad 5 yn darparu eithriad i'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd yn rheoliadau 3 a 4; nid yw'n gymwys pan fo'r person sy'n cael yr wybodaeth yn annhebygol o allu ei deall.

Mae rheoliad 6 yn creu trosedd ddiannod o dorri'r gofyniad i ddarparu'r wybodaeth iechyd y cyhoedd yn rheoliadau 3 a 4. Mae'r drosedd i'w chosbi drwy ddirwy.

Mae rheoliad 6(2) yn darparu amddiffyniad o "esgus rhesymol" i weithredwr a gyhuddir o drosedd o dan reoliad 4 (torri gofyniad i ddarparu gwybodaeth i deithwyr tra bônt ar y llestr neu'r awyren).

Mae rheoliad 7 yn darparu y caniateir gosod cosbau penodedig ar bersonau yr amheuir eu bod wedi cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau hyn yn lle eu herlyn. Y gosb yw £4000.

Rhaid adolygu'r angen am y Rheoliadau hyn a'u cymesuredd bob 21 o ddiwrnodau (rheoliad 9).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 595 (Cy. 136)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020

*Gwnaed* *am 5.38 p.m. ar 15 Mehefin 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *16 Mehefin 2020*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau 2 i 9 i rym ar 17 Mehefin 2020.

(3) Daw'r rheoliad hwn a rheoliadau 10 ac 11 i rym pan wneir y Rheoliadau hyn.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

mae i "ardal deithio gyffredin" yr ystyr a roddir i "common travel area" yn adran 1(3) o Ddeddf Mewnfudo 1971(**1**);

ystyr "coronafeirws" ("*coronavirus*") yw coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2);

ystyr "gwasanaeth teithwyr rhyngwladol" ("*international passenger service*") yw gwasanaeth masnachol y mae teithwyr yn ei ddefnyddio i deithio ar lestr neu awyren o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i borthladd yng Nghymru;

ystyr "llestr" ("*vessel*") yw pob ddisgrifiad o lestr a ddefnyddir i fordwyo (gan gynnwys hofrenfad o fewn ystyr "hovercraft" yn Neddf Hofrenfadau 1968(**2**)) sy'n 24 o fetrau neu fwy o hyd;

ystyr "person awdurdodedig" ("*authorised person*") yw—

(a) mewn perthynas â theithwyr sy'n cyrraedd ar lestr, yr Ysgrifennydd Gwladol;

(b) mewn perthynas â theithwyr sy'n cyrraedd ar awyren, yr Awdurdod Hedfan Sifil(**3**);

mae "porthladd" ("*port*") yn cynnwys unrhyw faes awyr, maes hofrenyddion neu borthladd môr.

## RHAN 2

### Gofynion i ddarparu gwybodaeth i deithwyr

**Darparu gwybodaeth cyn archebu ac wrth gofrestru**

**3.**—(1) Rhaid i weithredwr unrhyw wasanaeth teithwyr rhyngwladol ddarparu'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (2) fel rhan o unrhyw gyfleuster a reolir gan y gweithredwr y caiff person ei ddefnyddio—

(a) i archebu taith ar y gwasanaeth, neu

(b) i gofrestru i deithio ar y gwasanaeth.

(2) Yr wybodaeth a grybwyllir ym mharagraff (1)(a) yw—

(a) yn achos cyfleuster a ddarperir ar lein—

(i) dolen i www.gov.uk/uk-border-control, a

(ii) dolen i www.llyw.cymru/coronafeirws ynghyd â datganiad bod yr wybodaeth a geir ar y ddolen honno yn cynnwys y

(**1**) 1971 p. 77. Mae'r adran honno yn darparu y cyfeirir ar y cyd at y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon fel "the common travel area".

(**2**) 1968 p. 59.

(**3**) Mae'r Awdurdod Hedfan Sifil yn gorff corfforedig a sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf Hedfan Sifil 1971 (p. 75).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

cyngor diweddaraf o ran iechyd y cyhoedd sy'n ymwneud â'r coronafeirws yng Nghymru,

wedi ei gosod mewn lle amlwg fel bod y dolenni yn weladwy cyn archebu neu gofrestru;

(b) yn achos cyfleuster a ddarperir dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, cyfarwyddyd—

(i) i ddarllen yr wybodaeth ar www.gov.uk/uk-border-control, a

(ii) i fynd i www.llyw.cymru/coronafeirws ynghyd â datganiad bod yr wybodaeth a geir ar y ddolen honno yn cynnwys y cyngor diweddaraf o ran iechyd y cyhoedd sy'n ymwneud â'r coronafeirws yng Nghymru;

(c) yn y naill achos neu'r llall, cais i drosglwyddo'r wybodaeth a grybwyllir yn is-baragraff (a) neu (b) (yn ôl y digwydd) i unrhyw berson—

(i) yr archebir taith ar ei ran, neu

(ii) y cofrestrir ar gyfer taith ar ei ran.

(3) Pan na fo'r gweithredwr yn rheoli'r broses archebu neu gofrestru yn uniongyrchol, rhaid i'r gweithredwr gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod y person sy'n rheoli'r broses yn cydymffurfio â pharagraff (1) ar ran y gweithredwr.

**Darparu gwybodaeth yn ystod taith**

**4.**—(1) Rhaid i weithredwr gwasanaeth teithwyr rhyngwladol sicrhau y darperir pob teithiwr ar y llestr neu'r awyren â'r datganiad a nodir yn yr Atodlen yn ystod y daith i'r porthladd yng Nghymru.

(2) Rhaid darparu'r datganiad ar lafar yn Gymraeg, yn Saesneg ac mewn iaith a gydnabyddir yn swyddogol yn y wlad yr ymadawyd â hi.

**Eithriad o ofynion rheoliadau 3 a 4**

**5.** Nid oes dim yn rheoliad 3 neu 4 yn ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth i berson sydd, yn rhinwedd oedran neu alluedd meddyliol, yn annhebygol o allu ei deall.

## RHAN 3

### Troseddau, cosbau ac erlyniadau

**Troseddau**

**6.**—(1) Mae person sy'n torri gofyniad yn rheoliad 3(1) neu (3), neu reoliad 4 yn cyflawni trosedd.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Mae'n amddiffyniad i gyhuddiad o gyflawni'r drosedd o dorri'r gofyniad yn rheoliad 4 i ddangos bod gan y person esgus rhesymol dros dorri'r gofyniad.

(3) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan baragraff (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

**Hysbysiadau cosb benodedig**

**7.**—(1) Caiff person awdurdodedig ddyroddi hysbysiad cosb benodedig i unrhyw berson ("P") y mae'r person awdurdodedig yn credu'n rhesymol ei fod wedi cyflawni trosedd o dan reoliad 6(1).

(2) Mae hysbysiad cosb benodedig yn hysbysiad sy'n cynnig i P y cyfle i gael ei ryddhau o unrhyw atebolrwydd am euogfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig i—

(a) Gweinidogion Cymru, neu

(b) person a ddynodir gan Weinidogion Cymru at ddibenion cael taliad o dan y rheoliad hwn.

(3) Pan fo hysbysiad wedi ei ddyroddi o dan baragraff (1) mewn cysylltiad â throsedd—

(a) ni chaniateir dwyn unrhyw achos am y drosedd cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y dyroddir yr hysbysiad;

(b) ni chaniateir euogfarnu P o'r drosedd os yw P yn talu'r gosb benodedig cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(4) Rhaid i hysbysiad cosb benodedig—

(a) disgrifio'r amgylchiadau yr honnir eu bod yn ffurfio'r drosedd,

(b) datgan y cyfnod pan (oherwydd paragraff (3)(a)) na ddygir achos am y drosedd,

(c) pennu swm y gosb benodedig,

(d) datgan enw a chyfeiriad y person y caniateir talu'r gosb benodedig iddo, ac

(e) pennu dulliau o dalu a ganiateir.

(5) Rhaid i swm y gosb benodedig a bennir o dan baragraff (4)(c) fod yn £4,000.

(6) Mewn unrhyw achos, mae tystysgrif—

(a) sy'n honni ei bod wedi ei llofnodi gan neu ar ran—

(i) Gweinidogion Cymru, neu

(ii) person a ddynodir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff (2)(b), a

(b) sy'n datgan i'r taliad am y gosb benodedig ddod i law, neu na ddaeth i law, erbyn y dyddiad a bennir yn y dystysgrif,

yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatgenir.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Erlyniadau**

**8.** Ni chaniateir dwyn achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn ac eithrio gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus neu berson awdurdodedig.

## RHAN 4

### Amrywiol

**Adolygu'r gofynion**

**9.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad o'r gofynion a osodir gan Ran 2—

(a) erbyn 29 Mehefin 2020,

(b) o leiaf unwaith yn y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw, ac

(c) o leiaf unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 21 o ddiwrnodau.

(2) Rhaid i adolygiad a gynhelir o dan baragraff (1) ystyried a yw'r gofynion yn angenrheidiol ac yn gymesur fel modd o atal perygl i'r cyhoedd sy'n deillio o ledaeniad y coronafeirws.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020**

**10.**—(1) Diwygir Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn y testun Cymraeg yn unig—

(a) yn rheoliad 2(1), yn lle'r diffiniad o "gwybodaeth am deithiwr ("*passenger information*")" rhodder—

"ystyr "gwybodaeth am deithiwr" ("*passenger information*") yw'r wybodaeth a bennir yn Atodlen 1;";

(b) yn rheoliad 5(3)(b), yn lle "ddiweddaru ar ran P," rhodder "diweddaru";

(c) yn rheoliad 7—

(i) ym mharagraff (1)(b)(ii), hepgorer y coma ar ôl "sydd";

(ii) ym mharagraff (4)(a) hepgorer y gair "bai";

(iii) yn mharagraff (5)(a) ar ôl "yng Nghymru" mewnosoder "sy'n addas i breswylio ynddi";

(d) yn rheoliad 8—

(**1**) O.S. 2020/574 (Cy.132).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(i) ym mharagraff (2)(a)(i) yn lle "7(3));" rhodder "7(3); a";

(ii) ym mharagraff (3)(b)(i) yn lle "(bod y tu allan i fangre am gyhyd ag y bo'n angenrheidiol)" rhodder "(gadael y fangre dros dro)";

(e) yn rheoliad 14(4) yn lle "rreoliadau yma" rhodder "Rheoliadau hyn";

(f) yn rheoliad 16(2) yn lle "Reoliadau" rhodder "Rheoliadau";

(g) yn rheoliad 17(10)—

(i) ar ôl ""ddeddfwriaeth diogelu data"" mewnosoder "a "data personol"";

(ii) yn lle "ac mae i "data personol" yr ystyr a roddir i" rhodder "a";

(h) yn Atodlen 1, yn is-baragraff (d), yn lle "ei ddogfen" rhodder "dogfen";

(i) yn Atodlen 2—

(i) ym mharagraff 1 yn is-baragraffau (1)(h) a (2)(a)(i) yn lle "swydd" rhodder "swyddfa";

(ii) ym mharagraff 1(2)(a)(i) yn lle "i'r person" rhodder "i P";

(iii) ym mharagraff 2(1)(a) yn lle "y tu allan i'r" rhodder "yn y";

(iv) yn lle paragraff 3(1)(b) rhodder—

"sydd wedi bod ar lestr a weithredir gan Wasanaeth Llyngesol ei Mawrhydi am gyfnod di-dor o 14 o ddiwrnodau o leiaf yn union cyn iddo gyrraedd ac nad yw'r llestr hwnnw wedi codi unrhyw bersonau nac wedi glanio mewn unrhyw borthladd môr y tu allan i'r ardal deithio gyffredin yn ystod y cyfnod hwnnw.";

(v) ym mharagraff 7(2) yn y geiriau agoriadol, yn lle "y paragraff hwn" rhodder "is-baragraff (1)";

(vi) ym mharagraff 13(1)(b) yn y ddau le y mae'n ymddangos, ar ôl "plismona" mewnosoder "hanfodol".

(3) Yn Atodlen 2—

(a) yn lle'r pennawd i'r Atodlen rhodder—

"Personau esempt"

(b) yn y pennawd i Ran 1 o'r Atodlen, yn lle "3 a rheoliad 4" rhodder "4,5,7 nac 8";

(c) yn y pennawd i Ran 2 o'r Atodlen, yn lle "4"rhodder "7 nac 8".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Y Rheoliadau hyn yn dod i ben**

**11.**—(1) Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y 7fed diwrnod o Fehefin 2021.

(2) Nid yw'r ffaith bod y Rheoliadau hyn wedi dod i ben yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir yn unol â'r Rheoliadau hyn cyn iddynt ddod i ben.

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 5.38 p.m. ar 15 Mehefin 2020

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# YR ATODLEN

Rheoliad 4

## Datganiad ar y llestr neu'r awyren

Y datganiad sydd i'w ddarparu at ddibenion rheoliad 4 yw—

(a) Y fersiwn Gymraeg—

"Dyma neges iechyd y cyhoedd ar ran Llywodraeth Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Symptomau'r coronafeirws yw peswch cyson newydd, tymheredd uchel neu golli eich synnwyr blasu neu arogli arferol, neu newid yn eich synnwyr blasu neu arogli. Os ydych yn profi unrhyw un o'r symptomau hyn, waeth pa mor ysgafn ydynt, fe'ch cynghorir chi i wneud eich hunan yn hysbys i'r criw.

Camau syml y gallwch eu cymryd i helpu i'ch diogelu chi eich hun a'ch teulu yw:

1. Golchi eich dwylo.

2. Osgoi cyffwrdd â'ch wyneb â'ch dwylo.

3. Dal peswch a thisian mewn hances bapur a'i gwaredu ar unwaith.

Cyn cael mynediad i'r Deyrnas Unedig, rhaid i chi lenwi ffurflen lleoli cyswllt ar lein ar www.gov.uk. Rhaid i chi hefyd hunanynysu am y 14 o ddiwrnodau ar ôl i chi gyrraedd. Wedi cyrraedd, rhaid ichi gadw'r arfer o gadw pellter cymdeithasol os yn bosibl a theithio'n uniongyrchol i'r man lle rydych yn bwriadu ynysu. Dylech osgoi defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus oni bai nad oes dewis arall gennych.

Mae rhestr o'r bobl sy'n esempt rhag y gofynion, ar gael ar lein ar www.llyw.cymru/coronafeirws"

(b) Y fersiwn Saesneg—

"The following is a public health message on behalf of the Welsh Government and Public Health Wales.

The symptoms of coronavirus are a new continuous cough, a high temperature or a loss of, or change in, normal sense of taste or smell. If you experience any of these symptoms, however mild, you are advised to make yourself known to the crew.

Simple measures you can take to help protect yourself and family are:

1. Wash your hands.

2. Avoid touching your face with your hands.

3. Catch coughs and sneezes in a tissue and dispose of it immediately.

Before entering the UK, you must complete a contact locator form online at www.gov.uk. You must also self-isolate for the first 14 days after you arrive. When you arrive you must practice social distancing where possible and travel directly to the place where you

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

intend to isolate. Please avoid using public transport unless you have no alternative.

A list of the people who are exempt from the requirements can be found online at www.gov.wales/coronavirus"

(c) y datganiad sydd ym mharagraff (a) a (b) wedi ei gyfieithu i iaith a gydnabyddir yn swyddogol yn y wlad yr ymadawyd â hi.

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020.

**Vaughan Gething AS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**16 Mehefin 2020**

**RHAN 1**

**1. Disgrifiad**

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 yn gosod gofynion ar y rheini sy'n gweithredu gwasanaethau rhyngwladol sy'n cludo teithwyr mewn cwch neu awyren i Gymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon).

Gosodir gofyniad ar weithredwyr i sicrhau eu bod yn darparu gwybodaeth i bob teithiwr am goronafeirws a'r gofynion cysylltiedig sy'n gymwys iddynt (megis y ddyletswydd i hunanynysu os ydynt yn dod i Gymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin), yn ogystal â gwybodaeth am y canllawiau iechyd cyhoeddus. Rhaid rhoi'r wybodaeth i deithwyr cyn iddynt archebu'u taith, wrth iddynt gofrestru ac yn ystod eu taith ar fwrdd y cwch neu'r awyren.

Yr amcan yw caniatáu i'r rheini sydd am deithio i Gymru allu dewis yn ddoeth a ddylent gwblhau'u taith a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r mesurau iechyd cyhoeddus a gymerir i leihau lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd Covid-19 a chynyddu cydymffurfiaeth â'r mesurau hynny.

**2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn agored i gael eu dirymu gan Senedd Cymru (y 'weithdrefn negyddol').

Credir yn yr argyfwng iechyd cyhoeddus cyfredol y dylai'r mesurau y bydd y Rheoliadau yn eu gweithredu gael eu rhoi ar waith ar fyrder. O ganlyniad, nid ydynt yn dilyn y confensiwn na ddylai llai na 21 diwrnod fynd heibio rhwng gosod y Rheoliadau a'u gweld yn dod i rym.

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, hysbyswyd y Llywydd y daw'r Rheoliadau i rym lai na 21 diwrnod o ddyddiad eu gosod.

Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r Rheoliadau o leiaf unwaith bob 21 diwrnod, gyda'r adolygiad cyntaf yn cael ei gynnal erbyn 29 Mehefin. Mae'r Rheoliadau yn cynnwys yn ogystal ddarpariaeth machlud fel y dônt i ben ar ddiwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y dônt i rym.

Mae gwaith ar bolisi ar y cyd ar deithio rhyngwladol wedi cael ei arwain gan Lywodraeth y DU, mewn cydweithrediad â'r Llywodraethau Datganoledig, i ddatblygu ymagwedd gyffredin ar draws y DU.

Mae'r ymagwedd hon wedi golygu bod llywodraethau'r 4 gwlad wedi cytuno i gyflwyno'r hyn sy'n cyfateb i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio

Ryngwladol) (Cymru) 2020[1] sy'n ei gwneud yn ofynnol i deithwyr sy'n dod i Gymru ddarparu gwybodaeth ragnodedig ac i hunanynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau, yn ogystal â chyflwyno'r hyn sy'n cyfateb i'r Rheoliadau hyn.

**3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau hyn gan ddefnyddio pwerau a geir yn adrannau 45B(1) a (2)(g), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Clefyd) 1984 ("Deddf 1984").

Mae Deddf 1984 a'r rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae adran 45B o Ddeddf 1984 yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau diogelu iechyd ynghylch teithio rhyngwladol ac ati. O dan adran 45B(1)(a), caiff y Gweinidog priodol wneud darpariaeth trwy reoliadau i atal perygl o gychod, awyrennau, trenau neu gludiant arall yn cyrraedd unrhyw fan i iechyd y cyhoedd. Mae adran 45B(2)(r) yn darparu y caiff rheoliadau o dan adran 45B(1) gynnwys darpariaeth ar gyfer gwahardd neu reoleiddio cludiant sy'n cyrraedd neu'n ymadael a phersonau neu bethau sy'n dod i'r wlad neu'n ei gadael. Mae adran 45B(2)(g) yn darparu y caiff rheoliadau o dan adran 45B(1) gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau ddarparu gwybodaeth neu ateb cwestiynau (gan gynnwys gwybodaeth neu gwestiynau am eu hiechyd).

Mae adran 45F o Ddeddf 1984 yn darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 45B greu troseddau a darparu ar gyfer gosod a gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir gan neu o dan y rheoliadau. Bydd gweithredwr yn cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau os na fydd yn cydymffurfio â'r gofyniad i sicrhau y darperir gwybodaeth. Mae adran 45F(2)(a) yn cynnwys darpariaeth atodol sy'n ymwneud â rheoliadau a wneir o dan adran 45B; mae'n darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 45B roi swyddogaethau ar bersonau. Rhoddir swyddogaethau ar bersonau awdurdodedig sy'n ymwneud â monitro y cydymffurfir â gofynion a'u gorfodi.

Rhoddir y pwerau o dan yr adrannau hyn ar y "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd nifer o gamau i ostwng cyfradd trosglwyddo SARS-CoV-2, gan gynnwys creu canllawiau iechyd cyhoeddus (a gyhoeddwyd yn www.llyw.cymru/coronafeirws) ar fesurau fel cadw pellter cymdeithasol, golchi dwylo a hunanynysu. Hysbyswyd y canllaw hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a chan y cyngor gwyddonol diweddaraf a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru. Yn unol ag argymhellion cyffredinol Sefydliad Iechyd y Byd sy'n galw am godi ymwybyddiaeth trwy gyfathrebu'r risgiau yn effeithiol i'r cyhoedd, mae'r canllawiau wedi cael cyhoeddusrwydd helaeth yng Nghymru gyda'r amcan o

[1] SI 2020/574 (Cy. 132)

hysbysu cymaint o bobl â phosibl, a thrwy hynny, sicrhau'r lefelau cydymffurfio uchaf posibl.

Mae'n bwysig sicrhau bod y rheini sydd am deithio i Gymru yn cael yr wybodaeth lawn, fel mai ond y rheini sy'n fodlon ac yn gallu cydymffurfio â'r gofynion perthnasol ac â'r canllawiau iechyd cyhoeddus sy'n cwblhau'u taith.

Amcan y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod gan deithwyr, erbyn eu bod yn cyrraedd y pwynt mynediad i'r wlad, yr wybodaeth ddiweddaraf a'u bod felly yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud yn syth wedi dod i'r wlad. Bydd sicrhau bod gan y bobl sy'n dod i Gymru yr wybodaeth iechyd cyhoeddus ddiweddaraf a'u bod yn gallu cydymffurfio â hi, yn helpu i ostwng trosglwyddiad SARS-CoV-2 a thrwy hynny, atal y perygl i iechyd y cyhoedd o ddaw o awyrennau a chychod sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin.

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gwasanaethau rhyngwladol ar gyfer cludo teithwyr ddarparu gwybodaeth i deithwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cyngor iechyd cyhoeddus diweddaraf ar goronafeirws, ac o'r gofynion cysylltiedig sy'n gymwys iddynt (fel y gofyniad i hunanynysu pan fyddant yn dod i Gymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin). Rhaid rhoi'r wybodaeth i deithwyr cyn iddynt archebu eu taith, wrth iddynt gofrestru ac yn ystod eu taith ar fwrdd cwch neu awyren ("yr wybodaeth ofynnol").

Bydd yr wybodaeth ofynnol cyn archebu a chofrestru, lle darperir y cyfleusterau hynny ar-lein, yn cynnwys:

(i) dolen i www.gov.uk/uk-border-control, a
(ii) dolen i www.llyw.cymru/coronafeirws ynghyd â datganiad bod yr wybodaeth ar y ddolen yn cynnwys y cyngor iechyd cyhoeddus diweddaraf ar y coronafeirws yng Nghymru.

Rhaid gosod y dolenni hyn mewn lle amlwg fel eu bod yn weladwy cyn bod yr archebu'n digwydd.

Bydd yr wybodaeth ofynnol cyn archebu a chofrestru, lle darperir y cyfleusterau hynny dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, yn cynnwys cyfarwyddyd:

(i) i ddarllen yr wybodaeth yn www.gov.uk/uk-border-control, ac
(ii) i fynd i www.llyw.cymru/coronafeirws ynghyd â datganiad bod yr wybodaeth ar y ddolen yn cynnwys y cyngor iechyd cyhoeddus diweddaraf ar y coronafeirws yng Nghymru.

P'un a yw'r archebu a'r cofrestru'n digwydd ar-lein, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, rhaid i'r wybodaeth ofynnol gynnwys cais i drosglwyddo'r wybodaeth berthnasol i bob teithiwr arall:

(i) yr archebir taith ar ei ran, neu
(ii) y cofrestrir taith ar ei ran.

Os nad y gweithredwr ei hun sy'n rheoli'r broses archebu neu gofrestru, rhaid i'r gweithredwr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y person sydd yn rheoli'r broses yn cydymffurfio â'r gofynion hyn ar ran y gweithredwr.

Rhaid i weithredwr sicrhau y darperir y datganiad a ddisgrifir yn yr Atodlen i bob teithiwr ar y cwch neu'r awyren.  Bydd y datganiad ar ffurf neges iechyd cyhoeddus ac yn cynnwys gwybodaeth am symptomau SARS-CoV-2, yn ogystal â'r gofyn i lenwi ffurflen lleoli teithiwr ac i hunanynysu.  Rhaid tynnu sylw hefyd at y cyngor iechyd cyhoeddus diweddaraf ar y coronafeirws yng Nghymru, a geir yn www.llyw.cymru/coronafeirws. Rhaid rhoi'r datganiad ar lafar yn Gymraeg, Saesneg ac iaith a gydnabyddir yn swyddogol y wlad a adewir.

Nid oes gofyn i'r gweithredwr roi unrhyw wybodaeth cyn archebu, wrth gofrestru nac yn ystod y daith i deithiwr sydd oherwydd ei oed neu ei allu meddyliol yn annhebygol o allu ei deall.

Ni ddaw gweithredwyr coetsys a bysiau mini o dan gwmpas y Rheoliadau hyn.  Ni ragwelir y daw unrhyw goetsys na bysiau mini i Gymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin.  Fodd bynnag, os gwnânt, byddent yn cyrraedd ar gychod, felly byddai'r teithwyr wedi cael yr wybodaeth trwy fod yn deithwyr ar gwch o dan reoliadau cyfatebol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae'n ofynnol i weithredwyr gwasanaethau cludiant masnachol ar y môr roi'r wybodaeth i'r teithwyr a byddant yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn os byddant wedi rhoi'r wybodaeth berthnasol. Os nad y gweithredwr ei hun sy'n rheoli'r broses archebu neu gofrestru, rhaid i'r gweithredwr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y person sydd yn rheoli'r broses yn cydymffurfio â'r gofynion hyn ar ran y gweithredwr.

Mae'n drosedd i'w chosbi trwy ddirwy ar euogfarn ddiannod, i weithredwyr beidio â rhoi'r wybodaeth ofynnol i deithwyr cyn archebu, wrth gofrestru neu yn ystod y daith. Fodd bynnag, ceir amddiffyniad o "esgus resymol".

Gellir rhoi cosb benodol ar berson a amheuir o fod wedi cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau yn lle ei erlyn.  Caiff personau awdurdodedig (yr Ysgrifennydd Gwladol os teithir ar y môr a'r Awdurdod Hedfan Sifil os teithir yn yr awyr) roi hysbysiadau cosb benodedig. Y gosb yw £4,000.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio hefyd Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i gywiro gwallau drafftio mân (yn bennaf yn nhestun Cymraeg y Rheoliadau).  Mae fersiwn 'fel y'i diwygiwyd' o destun Cymraeg Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 wedi'i pharatoi a'i chyhoeddi ar wefan LLYW.cymru ynghyd â chopi o'r Rheoliadau hynny. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r Rheoliadau o leiaf unwaith bob 21 diwrnod, gyda'r adolygiad cyntaf yn cael ei gynnal erbyn 29 Mehefin 2020.  Cynhwysant hefyd 'ddarpariaeth machlud' a dônt i ben ar ddiwedd y 7fed dydd o fis Mehefin 2021.

**5. Ymgynghori**

O gofio'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol o ganlyniad i'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus ar fyrder, ni ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar y Rheoliadau hyn.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)**

Yn dilyn cod asesu effaith rheoleiddiol Gweinidog Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth, rhan o'r ymateb i bandemig COVID-19 yw'r Rheoliadau hyn ac mae angen eu rhoi ar waith ar fyrder. Am y rheswm hwnnw, nid oes RIA wedi'i baratoi.

Fodd bynnag, mae asesiad cychwynnol yn awgrymu na chaiff y Rheoliadau hyn fawr o effaith ar weithredwyr. Nid oes modd mesur costau a manteision y polisi hwn yn llawn oherwydd natur y pandemig. Mae'r polisi'n rhan o becyn mwy o fesurau sy'n anelu at gadw effeithiau COVID-19 ar iechyd mor fach â phosibl. Mae'r graddau y gellir gwahanu effaith pob polisi yn anodd os nad yn amhosibl.

Bydd yna gostau cynefino i weithredwyr pan gaiff y Rheoliadau eu rhoi ar waith. Dyma gost darllen y rheoliadau gan gyflogedigion a'u dosbarthu ar draws y sefydliad. Mae'r Rheoliadau'n rhai syml; bydd yr amser cynefino ac felly'r costau, yn fach. Nid oes gofyn i weithredwyr gynhyrchu eu canllawiau eu hunain nac i ddiweddaru'r canllawiau hynny.

Nid yw'n bosibl dweud a fydd y polisi yn esgor ar unrhyw fantais benodol i ganlyniad iechyd cyhoeddus, gan mai cyfrwng yw'r mesurau hyn i gyfathrebu a galluogi mesurau iechyd eraill trwy sicrhau bod teithwyr yn ymwybodol o'r cyngor diweddaraf, megis y canllawiau ar bellter cymdeithasol. Heb y gofyniad a ddisgrifir yn y Rheoliadau hyn i ddarparu gwybodaeth, fe all na chaiff manteision llawn y canllawiau a'r cyngor eu gwireddu. Disgwylir felly i'r Rheoliadau hyn helpu i ostwng trosglwyddiad COVID-19.

Cyn â'r Rheoliadau ddod i rym, gofynnwyd i weithredwyr roi gwybodaeth i deithwyr o'u gwirfodd felly disgwylir i'r costau pontio a chynefino fod yn fach. Gan fod gan weithredwyr systemau eisoes i roi gwybodaeth i deithwyr wrth archebu, cofrestru ac wrth deithio, ni ddisgwylir i'r gofyniad i roi'r wybodaeth a nodir yn Rheoliadau gael fawr o effaith ychwanegol.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

16 Mehefin 2020

Annwyl Llywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwyf yn eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym (yn rhannol) ar ddiwrnod ei wneud ac (yn llawn) lai na 21 diwrnod o ddyddiad ei osod. Atodir y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau er eich gwybodaeth.

Mae'r Rheoliadau'n gosod gofynion ar y rheini sy'n gweithredu gwasanaethau cludiant masnachol ar gyfer teithwyr sy'n teithio i Gymru dros y môr neu yn yr awyr, lle bo'r teithwyr hynny'n dod o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon).

Gosodir gofyniad ar weithredwyr i sicrhau eu bod yn darparu gwybodaeth i bob teithiwr am goronafeirws a'r gofynion cysylltiedig sy'n gymwys iddynt (megis y gofyniad i hunanynysu os ydynt yn dod i Gymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin), yn ogystal â gwybodaeth am y canllawiau iechyd cyhoeddus. Rhaid rhoi'r wybodaeth i deithwyr cyn iddynt archebu'u taith, wrth iddynt gofrestru ac yn ystod eu taith ar fwrdd y cwch neu'r awyren.

Yr amcan yw caniatáu i'r rheini sydd am deithio i Gymru allu dewis yn ddoeth a ddylent gwblhau'u taith a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r mesurau iechyd cyhoeddus a gymerir i leihau lledaeniad Covid-19 a chynyddu cydymffurfiaeth â'r mesurau hynny.

Mae'n bwysig bod Maes Awyr Caerdydd yn barod i dderbyn hediadau o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin yr un pryd â gweddill diwydiant hedfan y DU er mwyn iddo allu cadw ei le yn y farchnad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gwaith ar bolisi ar y cyd ar deithio rhyngwladol wedi cael ei arwain gan Lywodraeth y DU, mewn cydweithrediad â'r Llywodraethau Datganoledig, i ddatblygu ymagwedd gyffredin ar draws y DU. Mae'r ymagwedd hon wedi golygu bod llywodraethau'r 4 gwlad wedi cytuno i gyflwyno'r hyn sy'n cyfateb i'r Rheoliadau hyn.  Daeth Rheoliadau Lloegr a'r Alban i rym ar 8 Mehefin, felly hefyd Reoliadau Statudol Gogledd Iwerddon. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 y bydd angen iddynt, er sicrhau eglurder cyfreithiol, ddod i rym ar unwaith. Daw'r darpariaethau eraill i rym ar ôl gosod yr offeryn.

Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 niwrnod y tro hwn yn golygu y caiff y Rheoliadau ddod i rym ar 17 Mehefin 2020 ac oherwydd y posibiliad y gall hediadau ailddechrau ac er mwyn parhau â'r ymagwedd unedig a chysondeb â gweddill y DU, bernir bod y cyfnod byrrach yn angenrheidiol yn yr achos hwn a bod modd ei gyfiawnhau.

Gan fod angen y Rheoliadau hyn ar gymaint o fyrder, ni chynaliwyd ymgynghoriad arnynt er bod Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill yn ogystal â Maes Awyr Caerdydd.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi ac mae wedi'i osod gyda'r Rheoliadau yn y Swyddfa Gyflwyno.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennnaeth Gwasanaeth y Siambr a'r Pwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

# SL(5)552 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafirws) (Cymru) 2020 ("y Prif Reoliadau") i gynyddu swm y gosb benodedig am dorri'r Prif Reoliadau dro ar ôl tro hyd at uchafswm o £1,920.

Mae'r strwythur dirwyon blaenorol a newydd wedi'i nodi yn y tabl isod:

| | Y drefn bresennol o ran dirwyon | Y drefn newydd o ran dirwyon |
|---|---|---|
| Y drosedd gyntaf | £60 | £60 |
| Yr ail drosedd | £120 | £120 |
| Y drydedd drosedd | £120 | £240 |
| Y bedwaredd drosedd | £120 | £480 |
| Y bumed drosedd | £120 | £960 |
| Y chweched drosedd | £120 | £1,920 |

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) yn ystod y toriad am fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y'i gwnaed iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**.

Ymddengys bod nifer o wallau yn nhestun Cymraeg y Rheoliadau hyn:

1. Yn y rhaglith i'r testun Cymraeg dylai "iechyd a cyhoedd" ddweud "iechyd y cyhoedd"
2. Nid yw'r cyfeiriad at "Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol" yn y troednodyn ar dudalen 3 yn cynnwys blwyddyn y Ddeddf

3. Rheoliad 2(2) - mae'r diwygiad yn achosi i “y” ymddangos ddwywaith yn y testun Cymraeg, felly mae'r testun diwygiedig bellach yn dweud “ar y **y** cynharaf o'r canlynol ”(ychwanegwyd pwyslais)
4. Rheoliad 2(3)(iii) - mae'r “yn” ar goll cyn “achos y pedwerydd....”

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro pam mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn y weithdrefn frys o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (“Deddf 1984”), o ystyried y bu trafodaeth gyhoeddus eang ynghylch lefel hysbysiadau cosb penodedig Cymru yn ystod yr wythnosau yn arwain at wneud y Rheoliadau hyn. Hynny yw, gofynnwn beth ddigwyddodd a arweiniodd at angen brys i gynyddu lefel yr hysbysiadau cosb penodedig yng Nghymru.

Nodwn nad oes yn rhaid defnyddio'r weithdrefn “gwneud cadarnhaol” frys o dan Ddeddf 1984, ac mai’r weithdrefn “gadarnhaol ddrafft” fwy arferol (lle mae'r Senedd yn cymeradwyo rheoliadau **cyn** iddynt gael eu gwneud) yw'r weithdrefn ddiofyn o dan Ddeddf 1984.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth:

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 8 Mehefin 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

# Government response to the Legislation, Justice and Constitution Committee Report on The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) (Amendment) (No. 4) Regulations 2020

## Technical Scrutiny

**1. Standing Order 21.2(vii) - that there appear to be inconsistencies between the meaning of its English and Welsh texts**

These are minor typographical errors in the Welsh text which we will correct.

## Merits Scrutiny

**1. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd.**

The Committee has asked the Welsh Government to clarify why these Regulations follow the urgent procedure under section 45R of the Public Health (Control of Disease) Act 1984.

The urgency derived from repeated calls from Police Chief Constables and Police and Crime Commissioners in Wales to make changes to the amounts of fixed penalty. A decision was made to change this for repeat offenders and it became urgent to implement ahead of the Whitsun Bank Holiday. This was done in order to deter people from leaving their homes and from travelling into and across Wales.

This came as a result of the UK Government increasing the fixed penalty applicable in England for comparable offences, resulting in a greater difference between Wales and England. The increase in England took effect on 13 May.

Following their calls for changes to be made, Police and Crime Commissioners and Chief Constables in Wales were asked to provide evidence based on their experience of policing since the change to the English penalties. This information was given due consideration alongside other factors and Welsh Government decided the appropriate approach for Wales was to retain the level of fine for first and second offences but add multipliers for subsequent offences.

# Ymateb y Llywodraeth i Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

## Craffu Technegol

### 1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg

Mân wallau teipograffyddol yn y testun Cymraeg yw'r rhain a byddwn yn eu cywiro.

## Craffu ar Rinweddau

### 1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn i Lywodraeth Cymru egluro pam y mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn y weithdrefn frys o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984.

Daeth yn fater o frys oherwydd sawl galwad gan Brif Gwnstabliaid yr Heddlu a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru i newid symiau'r gosb benodedig. Gwnaed penderfyniad i newid y symiau hyn ar gyfer ad-droseddwyr a daeth yn fater o frys i'w weithredu cyn Gŵyl Banc y Sulgwyn. Gwnaed hyn er mwyn atal pobl rhag gadael eu cartrefi a rhag teithio i mewn i Gymru ac ar draws Cymru.

Cododd hyn oherwydd i Lywodraeth y DU gynyddu'r gosb benodedig a oedd yn gymwys yn Lloegr ar gyfer troseddau cymaradwy, gan arwain at wahaniaeth mwy rhwng Cymru a Lloegr. Cymerodd y cosbau uwch effaith yn Lloegr ar 13 Mai.

Yn dilyn eu galwadau i newidiadau gael eu gwneud, gofynnwyd i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid yng Nghymru ddarparu tystiolaeth ar sail eu profiadau o blismona ers i'r cosbau yn Lloegr gael eu newid. Rhoddwyd ystyriaeth ddyladwy i'r wybodaeth hon ar y cyd â ffactorau eraill a phenderfynodd Llywodraeth Cymru mai'r dull priodol i Gymru oedd cadw lefel y ddirwy ar gyfer y drosedd gyntaf a'r ail drosedd ond ychwanegu lluosyddion ar gyfer troseddau wedi hynny.

# SL(5)555 - Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer y trefniadau a'r gweithdrefnau gweithredol sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal cyfrifiad 2021 ("y Cyfrifiad") ac maent yn rhagnodi'r holiaduron a gaiff eu defnyddio. Mae'r Rheoliadau yn cynnwys enghreifftiau o'r holiaduron papur a disgrifiadau o'r cwestiynau a'r opsiynau ymateb ar gyfer yr holiaduron ar-lein.

Arolwg a gynhelir bob 10 mlynedd o'r holl bobl ac aelwydydd yn y Deyrnas Unedig yw'r Cyfrifiad. Mae'n darparu gwybodaeth hanfodol o lefel genedlaethol i lefel y gymdogaeth ar gyfer y llywodraeth, busnesau a'r gymuned.

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 3 o Ddeddf y Cyfrifiad 1920 ("Deddf 1920") ac maent yn galluogi dwyn Gorchymyn Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) 2020 i rym. Ymgynghorwyd â Gweinidogion Cymru ynghylch fersiwn ddrafft o Orchymyn drafft Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) 2020 drwy lythyr a anfonwyd at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd. Cymeradwywyd Gorchymyn Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) 2020 ("Gorchymyn y Cyfrifiad") gan Senedd y DU ar 14 Mai 2020 ac fe'i gwnaed gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 20 Mai 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn

**Rheol Sefydlog 21.2(viii) – defnyddio iaith ryw-benodol.**

**1. Enwau rhyw-benodol**

Mae'r holiaduron yn defnyddio enwau rhyw-benodol (er enghraifft, 'son or daughter' a 'mother or father' yn y fersiwn Saesneg, neu 'mab neu ferch' neu 'mam neu dad' yn y fersiwn Gymraeg) fel atebion posibl wrth geisio manylion am berthynas pobl mewn aelwyd â'i gilydd. Mae'r rhain yn ymddangos yn Rhan 1 (tudalennau 26 a 27 yn y fersiwn Saesneg a 29 a 30 yn y fersiwn Gymraeg), Rhan 4 (cwestiwn H6 ar dudalennau 43 a 44 yn y fersiwn Saesneg a 46 a 47 yn y fersiwn Gymraeg) a Rhan 5 (cwestiwn C1 ar dudalennau 75 a 76 yn y fersiwn Saesneg a 78 a 79 yn y fersiwn Gymraeg) o Atodlen 2. Mae'r un cwestiynau hefyd yn cynnwys atebion posibl nad ydynt yn enwau rhyw-benodol yn y fersiwn Saesneg (er enghraifft, 'grandchild or grandparent; nodir 'ŵyr neu wyres' neu 'taid/tad-cu neu nain/mam-gu' yn y fersiwn Gymraeg). Mae'r Canllawiau Drafftio Deddfwriaethol a luniwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi "Yn gyffredinol, dim ond i gyfeirio at bersonau o'r naill ryw neu'r llall y dylai iaith ryw-benodol gael ei defnyddio".

Nid yw'n glir pam na ddewiswyd enwau nad ydynt yn rhyw-benodol ar gyfer yr holl atebion posibl yn y fersiwn Saesneg. Gofynnir am esboniad gan y Llywodraeth.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pum pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

**1. Hawliau dynol**

Drwy ei gwneud yn orfodol i bobl ddarparu gwybodaeth bersonol wrth ymateb i'r Cyfrifiad, mae'r Rheoliadau'n cyffwrdd â'r hawl i barchu bywyd preifat a theuluol o dan Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae Erthygl 8 yn hawl gymwysedig, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawl os oes angen mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch cenedlaethol, diogelwch y cyhoedd neu les economaidd y wlad, i atal anhrefn neu droseddu, er mwyn amddiffyn iechyd neu foesau, neu er mwyn amddiffyn hawliau a rhyddid pobl eraill.

Mae'r broses o gynnal cyfrifiad wedi'i hen sefydlu yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n arfer cyffredin mewn llawer o wledydd. Mae cynnal cyfrifiad yn cael ei gyfiawnhau'n aml fel rhywbeth sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd ac fel ffynhonnell wybodaeth sy'n caniatáu i lywodraethau ddeall anghenion cymdeithasol.

Cydnabyddir bod mesurau diogelwch ar waith sy'n rhoi rhywfaint o ddiogelwch i breifatrwydd unigolyn, gan gynnwys cyfeiriadau at sut y caiff gwybodaeth ei diogelu'n unol â'r gyfraith, y troseddau o ran datgelu gwybodaeth y cyfrifiad a chaniatáu i unigolion mewn aelwyd lenwi holiadur unigol. Nodir hefyd fod Deddf 1920 yn gwneud cwestiynau ynglŷn â chrefydd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yn wirfoddol i bob pwrpas drwy ddileu'r gosb pe na bai person rhagnodedig yn ymateb i'r cwestiynau hynny yn y cyfrifiad. Yn olaf, bydd Deddf Diogelu Data 2018 yn gymwys i'r gwaith o brosesu data personol a nodir ar ffurflenni'r cyfrifiad ac felly'n darparu mesurau diogelwch pellach.

Er bod y gofyniad i ymateb i'r Cyfrifiad yn ymyrraeth gyfiawn â'r hawl i fywyd preifat a theuluol o dan Erthygl 8, nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys cyfiawnhad dros yr ymyrraeth.

**2. Y termau Cymraeg a ddefnyddir ar gyfer 'household'**

Mae rheoliad 3(3) yn darparu mai'r term "aelwyd" a ddefnyddir yn Gymraeg, yng nghorff y Rheoliadau, i gyfateb i "household" yn Saesneg. Fodd bynnag, mae rheoliad 3(4) yn darparu mai'r term "cartref" a ddefnyddir yn yr holiaduron i gyfateb i "household". Defnyddir "aelwyd" yn fwy cyffredinol i gyfateb i "hearth", tra bod "cartref" yn cael ei ddefnyddio i gyfateb i "home".

Nid oes rheswm clir am wahaniaethu ac nid yw'n glir pham na ellid defnyddio un term yng nghorff y Rheoliadau a'r holiaduron. Gofynnir am esboniad gan y Llywodraeth i egluro'r termau a ddefnyddir.

**3. Gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Mae'r testun enghreifftiol Saesneg a roddir yng nghwestiwn 28 i unigolion (Rhan 4 o Atodlen 2 ar dudalennau 49, 54, 59, 64 a 69, Rhan 5 o Atodlen 2 ar dudalennau 80, 85, 90, 95 a 100 a Rhan 6 o Atodlen 2 ar dudalen 110), yn nodi, 'Record any qualifications you have ever achieved in Wales, England or worldwide...' tra bod y testun Cymraeg yn nodi, '...Cymru neu o unrhyw le arall yn y byd...', heb gynnwys Lloegr. Er y byddai'r cwestiwn yn cael ei ateb yn yr un modd ni waeth a ddefnyddiwyd y fersiwn Gymraeg

neu'r fersiwn Saesneg o'r holiaduron, nid oes rheswm clir am wahaniaethu, ac nid yw'n glir a oes arwyddocâd i'r gwahaniaeth.

Gofynnir am esboniad gan y Llywodraeth i egluro'r rheswm am y gwahaniaeth.

**4. Personau rhagnodedig a'r fersiwn o'r holiaduron**

Er ei bod yn bosibl canfod pa bersonau rhagnodedig y gofynnir iddynt lenwi pa holiaduron drwy ddarllen y Rheoliadau, mae cynllun a fformat y tabl sydd wedi'i gynnwys yn y fersiwn a gyhoeddwyd o Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn creu amwysedd.

Gellid dod i'r casgliad fod y bylchau rhwng yr holiaduron a restrir yng ngholofnau (2) a (3) yn fwriadol ac mai'r bwriad yw nodi beth sy'n berthnasol i'r personau rhagnodedig yng ngholofn (1). Er enghraifft, un dehongliad yw mai dim ond pan fo erthygl 5(11) o Orchymyn y Cyfrifiad yn gymwys y bydd Holiadur (papur) y Cartref (Parhad) yn berthnasol ac mai dim ond i bob person a bennir yng ngholofn (2) o Grŵp G yn Atodlen 1 i Orchymyn y Cyfrifiad y mae'r Holiadur (papur) i Unigolion yn berthnasol.

O'r herwydd, byddai'n fanteisiol trefnu neu fformadu'r fersiwn gyhoeddedig o'r Rheoliadau yn gliriach rhwng pob un o'r tri grŵp o holiaduron y mae angen eu llenwi, efallai drwy gynnwys rhifau neu linellau rhwng y rhesi.

Gofynnir am ymateb gan y Llywodraeth.

**Rheol Sefydlog 21.3(v) - nad yw'n gwireddu ei amcanion polisi yn berffaith**

**5. Gwahaniaethau rhwng yr holiadur ar-lein a'r holiadur papur**

Mae rhai gwahaniaethau rhwng y cwestiynau a ofynnir, a'r atebion a gynigir, yn yr holiadur ar-lein o'i gymharu â'r holiadur papur. Dyma'r gwahaniaethau:

(a) Mae'r holiadur ar-lein yn nodi Bagloriaeth Cymru Uwch, Bagloriaeth Cymru Canolradd a Bagloriaeth Cymru Sylfaen fel opsiynau ar wahân wrth geisio gwybodaeth am gymwysterau ond yn grwpio'r opsiynau hyn gyda "2 neu fwy o gymwysterau Lefel A (Safon Uwch) (gan gynnwys 4 Lefel AS (Safon UG) neu fwy)" a "5 neu fwy o gymwysterau TGAU A* i C neu 9 i 4 (gan gynnwys 5 neu fwy Lefel O (marc llwyddo) neu TAUau graddau 1)" ac "Unrhyw gymwysterau TGAU eraill (gan gynnwys unrhyw Lefel O neu TAU arall ar unrhyw radd)" yn y drefn honno. Mae'r gwahaniaethau i'w gweld yn Rhan 1 o Atodlen 2 (ar dudalen 36 a 37) ar gyfer yr holiadur ar-lein a chwestiwn 31 i unigolion (Rhan 4 o Atodlen 2 ar dudalennau 52, 57, 62, 67 a 72, Rhan 5 o Atodlen 2 ar dudalennau 83, 88, 93, 98 a 103 a Rhan 6 o Atodlen 2 ar dudalen 113) ar gyfer yr holiaduron papur.

(b) Os nad yw person wedi cyflawni'r cymwysterau a nodir neu gymwysterau cyfatebol, gofynnir iddynt "Oes gennych chi unrhyw gymwysterau eraill?" yn yr holiadur ar-lein (Rhan 2 o Atodlen 2 ar dudalen 37). Mae'r tri ateb posibl ar gyfer y cwestiwn hwnnw yn caniatáu i berson nodi bod ganddo (i) gymwysterau eraill yng Nghymru neu Loegr, (ii) cymwysterau eraill o'r tu allan i Gymru a Lloegr neu (iii) dim cymwysterau. Ni ofynnir i berson sy'n llenwi holiadur papur wahaniaethu rhwng cymwysterau a gyflawnir yng Nghymru a Lloegr a'r rhai a gyflawnir y tu allan i Gymru a Lloegr.

(c) Mae'r cyfarwyddyd cyfeirio yn yr holiadur ar-lein (Rhan 2 o Atodlen 2 ar dudalen 38) yn nodi mai dim ond yn dilyn ymatebion penodol y gofynnir rhai cwestiynau. Gofynnir y cwestiynau cyfatebol (cwestiynau 36 a 37 i unigolion) yn yr holiaduron papur ni waeth beth yw'r ymateb a roddwyd i

gwestiwn 35 (Rhan 4 o Atodlen 2 ar dudalennau 52, 57, 62, 67 a 72, Rhan 5 o Atodlen 2 ar dudalennau 83, 88, 93, 98 a 103 a Rhan 6 o Atodlen 2 ar dudalen 113).

(d) Mae'r holiadur ar-lein yn cynnwys cwestiwn "Ble ydych chi'n gweithio'n bennaf?" gydag opsiynau gan gynnwys "Mewn gweithle" ac "Adrodd i ddepo". Mae'r cwestiwn dilynol "Ydych chi'n gweithio yn y Deyrnas Unedig yn bennaf?" yn cynnwys ymatebion sy'n gwahaniaethu rhwng cyfeiriadau yn y DU, lle gofynnir i'r sawl sy'n llenwi'r holiadur nodi'r cyfeiriad, a rhai'r tu allan i'r DU, lle gofynnir i'r sawl sy'n llenwi'r holiadur nodi'r wlad yn unig. Mae'r holiaduron papur yn cyfuno'r opsiynau ar gyfer gweithle a depo yng nghwestiwn 49 (Rhan 4 o Atodlen 2 ar dudalennau 53, 58, 63, 68 a 73, Rhan 5 o Atodlen 2 ar dudalennau 84, 89, 94, 99 a 104 a Rhan 6 o Atodlen 2 ar dudalen 114). Nid yw'r holiaduron papur yn gwahaniaethu ychwaith rhwng gweithleoedd yn y DU a rhai'r tu allan i'r DU, gan ofyn i'r sawl sy'n llenwi'r holiadur nodi cyfeiriad llawn waeth beth yw lleoliad y gweithle ar gyfer cwestiwn 50 (Rhan 4 o Atodlen 2 ar dudalennau 53, 58, 63, 68 a 73, Rhan 5 o Atodlen 2 ar dudalennau 84, 89, 94, 99 a 104 a Rhan 6 o Atodlen 2 ar dudalen 114).

Nid yw'n glir a yw'r gwahaniaethau hyn yn fwriadol, ac os felly pam mae'r gwahaniaethau hynny'n angenrheidiol. Os bydd yr atebion a gesglir ar gyfer yr holiaduron ar-lein a'r holiaduron papur fel rhan o'r Cyfrifiad yn wahanol, gallai hynny effeithio ar ansawdd y data a gesglir a'r ystadegau y gellir eu canfod gan ddefnyddio'r data hynny. Mae'r gwahaniaethau hynny'n effeithio ar yr amcan polisi o gynnal ymarfer casglu data sy'n rhoi darlun manwl o'r boblogaeth gyfan.

Gofynnir am esboniad gan y Llywodraeth i egluro'r rheswm am y gwahaniaethau.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt technegol ac i'r ail, y trydydd, y pedwerydd a'r pumed pwynt o ran rhinweddau.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

# The Census (Wales) Regulations 2020

**<u>Technical scrutiny</u>**

**Standing Order 21.2(viii) – that it uses gender specific language**

**1. Gender- specific nouns**

The Regulations are made under section 3 of the Census Act 1920**.** Section 3 of the Census Act 1920 makes provision for census Regulations to be made for the procedural and practical arrangements needed to conduct a census pursuant to a census order.

The power to make census regulations for Wales was transferred to the National Assembly pursuant to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) (No. 2) Order 2006 (S.I. 2006/3334). These functions are now vested in the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006. The Welsh Ministers' functions extend to the procedural and practical arrangements only.

Pursuant to section 2 of the Census Act 1920, it is the duty of the Statistics Board in relation to England and Wales to make such arrangements that are necessary for the taking of the census and this includes the preparation and the issue of the necessary questionnaires. In this regard, the Office of National Statistics (ONS) has prepared both the online and paper questionnaires in readiness for the Census due to take place on Sunday 21 March 2021. The questionnaires were provided by the ONS to the Welsh Government for inclusion in the Regulations.

While the Welsh Government Legislative Drafting Guidelines have been adopted for the body of the Regulations, which are the responsibility of the Welsh Ministers, those drafting principles do not extend to the ONS who drafted the questionnaires.

As part of their gender identity research, the ONS investigated whether the response categories in the household relationships question should change to (or include) gender neutral terminology, to allow those who do not ascribe to a binary gender (male/female) to answer with ease. Their analysis indicated that within the focus groups, non-gendered terminology was reported as a positive move, although there was a lack of understanding of non-gendered terms (for example, "spouse" and "sibling"), indicating potential problems with their inclusion. Tied in with these considerations are presentational and readability issues to do with how much text appears both online and on paper, as well as the number of lines of text (i.e. space) available, which only applies to paper.

## Merits Scrutiny

**Standing Order 21.3(ii)**

### 2. Use of the Welsh terms for household

The interpretation provision adopted in regulations 3(3) and 3(4) for “aelwyd” and “cartref” were adopted in order to assist the reader with the interpretation of the Regulations and the questionnaires, and to ensure that there was no ambiguity between the Welsh and English language text.

Household and Householder have the meaning given by article 2(1) of the Census (England and Wales) Order 2020, the 2020 Order does not include a translation of those definitions being a UK Government instrument. As noted in the response to the technical scrutiny issue noted at [1] above, the body of the Regulations were drafted by lawyers for the Welsh Government, while the questionnaires were drafted and translated by the ONS, each of which adopt varying translation styles. The two definitions provided correctly describe a household and it was decided that the interpretation provision would be adopted to assist the interpretation of the Regulations as a whole.

The Welsh language questionnaires were quality assured and signed-off by the Welsh Language Census Questions Assurance Group. This group consists of translators from the Welsh Government’s Translation Service, statisticians from the Welsh Government’s Knowledge and Analytical Services, and representatives from the Welsh Language Commissioner.

These interpretations were also used as a precedent in the Census (Wales) Regulations 2010, at regulation 3(3) and 3(4).

### 3. Difference between the English terms and the Welsh texts

The difference between the English guidance text and the Welsh guidance text is due to the space constraints of the Welsh language paper questionnaire. A word-for-word translation of the English guidance text would mean that an additional line of text would be needed in the Welsh language questionnaire, which was not possible. Even with this shortening, there has been a compromise in line spacing and readability to make it fit due to the inclusion of the Welsh Baccalaureates in both the English language and Welsh language questionnaires for Wales.

The Welsh Language Census Questions Assurance Group therefore approved the Welsh guidance text included in the Regulations on the premise that the question would be answered in the same way, irrespective of whether a person uses the English or Welsh version of the questionnaires.

### 4. Prescribed persons and version of questionnaires

We are grateful for your comment in respect for the layout and formatting of the table in Schedule 1 of the published version of the Regulations. When drafting the table, there were borders between the rows, which do not appear in the published version. We have made enquires and we propose reinstating the borders in Schedule 1, which will afford clear delineation between each of the three groups of

questionnaires. It is proposed that this will be achieved by way of a correction slip; we are and will continue to liaise with the Registrar team at the National Archives to seek to achieve the necessary formatting changes.

**Standing Order 21.3(v) – that it imperfectly achieves its policy objectives**

**5. Differences between the online and paper questionnaire**

In general, the points raised are mainly driven by the space constraints in the paper questionnaire. The online questionnaire allows the ONS to gather information in a more granular way by breaking down these answers further, making it easier for people to answer. However, the paper questionnaire does not allow space for this, therefore some routing and response options differ, but they aim to provide the closest match that is achievable on paper to the online version, to ensure that the quality of data collected is as good as possible in both modes of response.

In response to the individual points raised:

(a) The aim of this question is to collect the highest level of qualification. Due to space constraints, on paper the Welsh Baccalaureate is grouped into an option with other qualifications of the same level (in various places due to the different Baccalaureates available). Online, the ONS was able to increase readability of the response option by separating it into two distinct options. This is purely to reduce respondent burden in reading long response options, and not operationally required.

(b) Again, ideally the paper questionnaire would also have split these out, in the same way as online. Doing this provides useful information to understand why the person was unable to map any qualifications to the ones listed.

(c) In this case the online routing was not easily replicable on paper; adding the routing risked additional confusion and respondent burden without significant benefit.

The answers to the three questions are combined to identify if a person is economically active. The routing looks across multiple questions, which cannot be replicated on paper.

Online, the automatic routing can take into account answers to multiple questions, so was implemented to reduce respondent burden.

The routing on Q35 could have been implemented on the paper form; however, that would leave less information from which to work out economic status if left blank (online, if left blank they have to complete all three questions). Hence, it was decided to leave out due to this benefit. There was a relatively low burden of asking the respondent an additional 'Yes'/'No' question that still makes sense whether their previous response was 'Yes' or

‘No’, especially when offset by the additional burden that routing adds (people struggle with routing, so less is better when asking the respondent to navigate the form themselves).

(d) As with previous items, this is due to space constraints on the paper form. Ideally the ONS would have included an “or abroad, state country” type option as per other address write-in questions. On paper, there was not space to do this. Online the ONS has implemented the design that they use across the address questions by ascertaining if it’s in the UK or not first, then collecting the detail needed (full address, or just country). The answer given to the paper questionnaire will allow the same output, as workplaces outside the UK will still be recorded.

# Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2020

## Craffu technegol

**Rheol Sefydlog 21.2(viii) – bod yr offeryn neu'r drafft yn defnyddio iaith ryw-benodol**

### 1. Enwau rhyw-benodol

Mae'r Rheoliadau wedi eu gwneud o dan adran 3 o Ddeddf y Cyfrifiad 1920. Mae adran 3 o Ddeddf y Cyfrifiad 1920 yn gwneud darpariaeth i Reoliadau cyfrifiad gael eu gwneud ar gyfer y trefniadau gweithdrefnol ac ymarferol y mae eu hangen i gynnal cyfrifiad yn unol â gorchymyn cyfrifiad.

Trosglwyddwyd y pŵer i wneud rheoliadau cyfrifiad ar gyfer Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2006 (O.S. 2006/3334). Mae'r swyddogaethau hyn wedi eu breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn rhychwantu'r trefniadau gweithdrefnol ac ymarferol yn unig.

Yn unol ag adran 2 o Ddeddf y Cyfrifiad 1920, dyletswydd y Bwrdd Ystadegau o ran Cymru a Lloegr yw gwneud y trefniadau hynny sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal y cyfrifiad ac mae hyn yn cynnwys llunio a dyroddi'r holiaduron angenrheidiol. Yn hyn o beth, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi llunio'r holiaduron ar-lein a'r holiaduron papur yn barod ar gyfer y Cyfrifiad sydd i fod i ddigwydd ddydd Sul 21 Mawrth 2021. Darparwyd yr holiaduron gan y SYG i Lywodraeth Cymru er mwyn eu cynnwys yn y Rheoliadau.

Er bod Canllawiau Drafftio Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru wedi eu mabwysiadu ar gyfer corff y Rheoliadau, sydd o dan gyfrifoldeb Gweinidogion Cymru, nid yw'r egwyddorion drafftio hynny yn ymestyn i'r SYG a ddrafftiodd yr holiaduron.

Fel rhan o'i hymchwil i hunaniaeth o ran rhywedd, ymchwiliodd y SYG a ddylai'r categorïau ymateb yn y cwestiwn ynghylch perthnasoedd yr aelwyd newid i derminoleg niwtral o ran rhywedd (neu gynnwys terminoleg o'r fath), er mwyn caniatáu i'r rheini nad ydynt yn priodoli rhywedd deuaidd (gwryw/benyw) iddynt eu hunain ymateb yn hawdd. Dangosodd dadansoddiad y SYG i'r grwpiau ffocws nodi bod terminoleg niwtral o ran rhywedd yn gam cadarnhaol, er bod diffyg dealltwriaeth o dermau niwtral o ran rhywedd (er enghraifft, "spouse" a "sibling"), sy'n dangos problemau posibl o ran eu cynnwys. Yn gysylltiedig â'r ystyriaethau hyn mae materion cyflwyno a materion darllenadwyedd sy'n ymwneud â faint o destun sy'n ymddangos ar lein ac ar bapur, yn ogystal â nifer y llinellau o destun (h.y. faint o le) sydd ar gael, sy'n gymwys i bapur yn unig.

**<u>Craffu ar Rinweddau</u>**

**Rheol Sefydlog 21.3(ii)**

**2. Y defnydd o'r termau Cymraeg am "household" - for legal**

Mabwysiadwyd y ddarpariaeth ddehongli yn rheoliad 3(3) a 3(4) ar gyfer "aelwyd" a "cartref" er mwyn cynorthwyo'r darllenydd i ddehongli'r Rheoliadau a'r holiaduron, ac i sicrhau nad oedd unrhyw amwysedd rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg.

Mae i "household" a "householder" yr ystyr a roddir gan erthygl 2(1) o Orchymyn y Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) 2020. Nid yw Gorchymyn 2020 yn cynnwys cyfieithiad o'r diffiniadau hynny gan mai offeryn gan Lywodraeth y DU ydyw. Fel y'i nodwyd yn yr ymateb i'r pwynt craffu technegol yn [1] uchod, cafodd corff y Rheoliadau ei ddrafftio gan gyfreithwyr Llywodraeth Cymru, ond cafodd yr holiaduron eu drafftio a'u cyfieithu gan y SYG, sy'n dilyn arddulliau cyfieithu gwahanol. Mae'r ddau ddiffiniad a ddarperir yn disgrifio "household" yn gywir a phenderfynwyd mabwysiadu'r ddarpariaeth ddehongli er mwyn cynorthwyo i ddehongli'r Rheoliadau fel cyfanwaith.

Sicrhawyd ansawdd yr holiaduron Cymraeg gan Grŵp Sicrhau Ansawdd Cwestiynau Cymraeg y Cyfrifiad. Mae'r grŵp yn cynnwys cyfieithwyr o Wasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru, ystadegwyr o Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, a chynrychiolwyr Comisiynydd y Gymraeg.

Hefyd, defnyddiwyd y dehongliadau hyn fel cynsail yn Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2010, yn rheoliad 3(3) a 3(4).

**3. Gwahaniaeth rhwng y termau Saesneg a'r testunau Cymraeg**

Oherwydd cyfyngiadau lle yn yr holiadur papur Cymraeg y mae'r gwahaniaeth rhwng testun y canllawiau Saesneg a thestun y canllawiau Cymraeg. Byddai cyfieithiad gair am air o destun y canllawiau Saesneg yn golygu y byddai angen llinell ychwanegol o destun yn yr holiadur Cymraeg, nad oedd yn bosibl. Hyd yn oed gyda'r cwtogi hwn, bu cyfaddawd o ran y bylchau rhwng y llinellau a darllenadwyedd er mwyn i'r testun ffitio oherwydd ei fod yn cynnwys Bagloriaeth Cymru yn yr holiaduron Cymraeg a Saesneg i Gymru.

Felly, cymeradwyodd Grŵp Sicrhau Ansawdd Cwestiynau Cymraeg y Cyfrifiad destun y canllawiau Cymraeg a gynhwysir yn y Rheoliadau gan ragdybio y byddai'r cwestiwn yn cael ei ateb yn yr un ffordd, ni waeth a yw person yn defnyddio fersiwn Gymraeg neu Saesneg yr holiaduron.

**4. Personau rhagnodedig a fersiwn yr holiaduron**

Rydym yn ddiolchgar am eich sylw mewn cysylltiad â chynllun a fformat y tabl yn Atodlen 1 i fersiwn gyhoeddedig y Rheoliadau. Wrth ddrafftio'r tabl, roedd borderi rhwng y rhesi, nad ydynt yn ymddangos yn y fersiwn gyhoeddedig. Rydym wedi gwneud ymholiadau ac yn bwriadu adfer y borderi yn Atodlen 1, a fydd yn rhoi amlinelliad clir rhwng pob un o'r tri grŵp o holiaduron. Bwriedir cyflawni hyn drwy slip cywiro; rydym yn cydweithio â thîm y Cofrestrydd yn yr Archifau Cenedlaethol, a byddwn yn parhau i wneud hynny, i geisio sicrhau'r newidiadau fformatio angenrheidiol.

**Rheol Sefydlog 21.3(v) – nad yw'n gwireddu ei amcanion polisi yn berffaith**

**5. Gwahaniaethau rhwng yr holiadur ar-lein a'r holiadur papur**

Yn gyffredinol, cyfyngiadau lle yn yr holiadur papur sydd y tu ôl i'r pwyntiau a godwyd. Mae'r holiadur ar-lein yn caniatáu i'r SYG gasglu gwybodaeth mewn ffordd fwy gronynnol drwy rannu'r atebion hyn ymhellach, gan ei gwneud yn haws i bobl ateb. Fodd bynnag, nid oes lle i wneud hyn yn yr holiadur papur ac felly mae rhai opsiynau sy'n pennu'r llwybr ac opsiynau ymateb yn wahanol. Fodd bynnag, eu nod yw rhoi'r gyfatebiaeth agosaf y gellir ei chyflawni ar bapur â'r fersiwn ar-lein, er mwyn sicrhau bod ansawdd y data a gesglir cystal â phosibl yn y ddau ddull o ymateb.

Mewn ymateb i'r pwyntiau unigol a godwyd:

(a) Nod y cwestiwn hwn yw casglu'r lefel uchaf o gymhwyster. Oherwydd cyfyngiadau lle, ar bapur mae Bagloriaeth Cymru wedi ei grwpio mewn opsiwn gyda chymwysterau eraill ar yr un lefel (mewn sawl lle oherwydd y Bagloriaethau gwahanol sydd ar gael). Ar lein, roedd y SYG yn gallu gwella darllenadwyedd yr opsiwn ymateb drwy ei rannu'n ddau opsiwn ar wahân. Dim ond i leihau'r baich ar yr ymatebydd wrth ddarllen opsiynau ymateb hir y gwneir hyn, ac nid yw'n ofynnol yn weithredol.

(b) Eto, yn ddelfrydol, byddai'r holiadur papur hefyd wedi gwahanu'r rhain, yn yr un ffordd ag a geir ar lein. Mae gwneud hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i ddeall pam na allai'r person fapio unrhyw gymwysterau i'r rhai a restrir.

(c) Yn yr achos hwn, nid oedd yn hawdd atgynhyrchu'r broses pennu llwybr ar-lein ar ffurf papur; roedd perygl y gallai ychwanegu'r broses pennu llwybr achosi dryswch ychwanegol a baich ychwanegol ar yr ymatebydd heb fanteision sylweddol.

    Mae'r atebion i'r tri chwestiwn yn cael eu cyfuno i nodi a yw person yn economaidd weithgar. Mae'r broses pennu llwybr yn edrych ar draws sawl cwestiwn, ac ni ellir atgynhyrchu hyn ar bapur.

    Ar lein, gall y broses awtomatig i bennu'r llwybr ystyried atebion i sawl cwestiwn, ac fe'i gweithredwyd felly er mwyn lleihau'r baich ar yr ymatebydd.

    Gallai'r broses pennu llwybr ar gwestiwn 35 fod wedi cael ei gweithredu ar y ffurflen bapur; fodd bynnag, byddai hynny'n arwain at lai o wybodaeth i'w defnyddio er mwyn penderfynu statws economaidd pe bai'n cael ei adael yn wag (ar lein, os yw'n cael ei adael yn wag rhaid iddynt gwblhau'r tri chwestiwn i gyd). Felly, penderfynwyd ei hepgor oherwydd y fantais hon. Roedd baich cymharol isel drwy ofyn cwestiwn 'Ie'/'Nage' ychwanegol i'r ymatebydd sy'n gwneud synnwyr o hyd pa un a oedd ei ymateb blaenorol yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn enwedig wrth wrthbwyso hynny gan y baich ychwanegol y mae'r broses pennu llwybr yn ei ychwanegu (mae pobl yn cael trafferth gyda'r

broses pennu llwybr, felly mae llai yn well wrth ofyn i'r ymatebydd lywio ei ffordd ei hunan drwy'r ffurflen).

(d) Fel yn achos yr eitemau blaenorol, mae hyn oherwydd cyfyngiadau lle ar y ffurflen bapur. Yn ddelfrydol, byddai'r SYG wedi cynnwys opsiwn o'r math "neu dramor, nodwch y wlad", fel yn achos cwestiynau eraill lle y mae angen ysgrifennu'r cyfeiriad. Ar bapur, nid oedd lle ar gael i wneud hyn. Ar lein, mae'r SYG wedi gweithredu'r dyluniad y maent yn ei ddefnyddio ar draws y cwestiynau cyfeiriad drwy gael gwybod pa un a yw yn y DU ai peidio yn gyntaf, wedyn casglu'r manylion sy'n angenrheidiol (cyfeiriad llawn, neu'r wlad yn unig). Bydd yr ateb a roddir i'r holiadur papur yn caniatáu'r un allbwn, gan y bydd gweithleoedd y tu allan i'r DU yn cael eu cofnodi o hyd.

# SL(5)556 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod gofynion ar gategorïau penodol o bobl sy'n cyrraedd Cymru:

- i ddarparu gwybodaeth am ble y byddant yn preswylio yng Nghymru a materion perthnasol eraill;
- i ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau.

Yn ddarostyngedig i rai eithriadau, mae rheoliad 4 yn gorfodi personau sy'n cyrraedd Cymru ar long neu awyren i ddarparu gwybodaeth ar ffurf electronig i'r Ysgrifennydd Gwladol. Pan fo person yn cyrraedd yng nghwmni plentyn y bydd y maent yn gyfrifol amdano, mae'n ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth am y plentyn yn ogystal.

Mae Rheoliadau 7 ac 8 yn ei gwneud yn ofynnol, yn ddarostyngedig i rai eithriadau, bod y categorïau isod o bersonau yn ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau wedi cyrraedd Cymru:

- person sy'n cyrraedd Cymru ar long neu awyren o fan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin;
- person sy'n cyrraedd Cymru o Weriniaeth Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, ac sydd wedi cyrraedd o'r ardal deithio gyffredin o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n gorffen ar y diwrnod y mae'r person yn cyrraedd Cymru.
- person sy'n cyrraedd Cymru o fan arall yn y Deyrnas Unedig sydd, wedi cyrraedd o fan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin yn y 14 diwrnod blaenorol.

Mae Rheoliad 19 yn darparu ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu rheidrwydd a chymesuroldeb y Rheoliadau yma bob 21 diwrnod. Felly mae'n rhaid i'r adolygiad cyntaf gael ei gynnal erbyn 29 Mehefin 2020, gan i'r Rheoliadau ddod i rym ar 8 Mehefin 2020.

Mae Rheoliad 20 yn darparu y daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y deuant i rym.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1) Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 9 yn nodi nad yw rheoliadau 7 ac 8 yn gymwys i berson a ddisgrifir ym mharagraff 1(1)(a) i (k) o Atodlen 2, cyhyd â bod yr amodau ym mharagraff 2 o'r Atodlen honno wedi'u bodloni. Yn hytrach, dylai'r cyfeiriad at baragraff 2 o Atodlen 2 mewn perthynas â 9(a) gyfeirio at baragraff 1(2) o Atodlen 2.

**2) Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae Rheoliad 17(10) yn nodi bod gan "data personol" a "deddfwriaeth diogelu data", fel y'u defnyddir yn rheoliad 17(8), yr un ystyron ag yn adran 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018. Fodd bynnag, ymddengys mai gwall croesgyfeirio yw hwn, gan fod y termau hyn yn cael eu defnyddio mewn gwirionedd yn rheoliad 17(9) o'r Rheoliadau, yn hytrach na 17(8). Er mwyn cyflawnrwydd, dylid nodi bod y cyfeiriad at adran 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018 yn gywir.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1) Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Gwnaed y Rheoliadau hyn ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym am 12:01am ar 8 Mehefin 2020. Fe'u gosodwyd gerbron y Senedd am 11:00am ar 8 Mehefin 2020. Mae hyn yn golygu bod y Rheoliadau wedi'u gosod gerbron y Senedd ar ôl iddynt ddod i rym, ac mae hefyd yn golygu na chadwyd at y confensiwn i offerynnau statudol beidio dod i rym yn gynt na 21 diwrnod o ddyddiad eu gosod.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu cyflwyno ar yr un llinell amser sy'n gosod y gofynion cyfatebol mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fel rhan o ddull gweithredu ledled y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn egluro yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn ei bod, mewn ymateb i bandemig COVID-19, yn ystyried bod *"angen gweithredu ar frys i gyfyngu ar nifer yr achosion o COVID-19 a ddygir i mewn i'r DU a sicrhau na fydd yr achosion hyn yn cael effaith berthnasol ar fynychder domestig y feirws."* Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod hyn yn arbennig o bwysig wrth i gyfradd heintiau domestig arafu.

Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru yn egluro, *"Pe bai oedi o ran y ddeddfwriaeth, ni fydd yn ofynnol i bobl sy'n cyrraedd Cymru yn y byrdymor hunanynysu am 14 o ddiwrnodau, ac felly ni fydd yn ofynnol iddynt leihau eu cysylltiadau cymdeithasol yn sylweddol [...]. O ganlyniad, mae'r risg y byddant yn trosglwyddo'r feirws i'r boblogaeth ddomestig yn cynyddu, os ydynt wedi dal y feirws neu os ydynt yn heintus. Bydd unrhyw oedi hefyd yn golygu na fydd yn ofynnol i bobl sy'n cyrraedd Cymru ddarparu eu manylion cyswllt sydd eu hangen i gynorthwyo olrhain cysylltiadau a thrwy hynny leihau trosglwyddiad y feirws. Nod y ddau fesur yw lleihau mynychder COVID-19 yn y DU. Gall oedi o ran gweithredu'r rheoliadau arwain at gynnydd perthnasol ym mynychder y clefyd yn y DU ar yr union adeg y mae nifer yr achosion domestig yn lleihau."*

**2) Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus nac asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod hyn oherwydd y bygythiad difrifol ac agos sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys ac, o'r herwydd, yr angen i roi'r Rheoliadau hyn ar waith ar frys.

**3) Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae paragraff 17(2)(b) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau yn diffinio *"Trwyddedai carthffosiaeth"* fel yr ystyr a roddir yn adran 17BA(6) a 219(1) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Fodd bynnag, nodir na ellir dod o hyd i'r diffiniad yn adran 17BA o Ddeddf 1991, gan nad yw adran 4(1) o Ddeddf Dŵr 2014, sy'n mewnosod adran 17BA yn Neddf 1991, ond mewn grym yn rhannol. Gan hynny, nid yw adran 17BA(6) wedi'i mewnosod yn Neddf 1991 eto. Mae hyn yn gadael y darllenydd yn ddibynnol iawn ar y troednodyn yn y Rheoliadau, sy'n eu cyfeirio at Ddeddf Dŵr 2014.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru ddarparu ymateb ynghylch a yw'n gwybod pryd y bydd adran 17BA(6) yn cael ei mewnosod yn Neddf Diwydiant Dŵr 1991 gan Ddeddf Dŵr 2014 ac, yn absenoldeb hyn, a roddwyd ystyriaeth i gynnwys y diffiniad llawn ar wyneb y Rheoliadau.

**4) Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Trwy ei gwneud yn ofynnol i rai categorïau o bobl sy'n cyrraedd Cymru ynysu mewn cyfeiriad penodol am 14 o ddiwrnodau, a darparu gwybodaeth am ble y byddant yn preswylio yng Nghymru a materion perthnasol eraill, mae'r Rheoliadau yn rhoi'r hawl i fywyd preifat a theuluol o dan Erthygl 8 o'r Confensiwn.

Mae Erthygl 8 yn hawl gymwysedig a chaniateir ymyrryd â'r hawl hon, lle mae hynny'n angenrheidiol, mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu i ddiogelu iechyd.

Anghenraid y sefyllfa sydd wedi arwain at y Rheoliadau hyn yw'r sail debygol y dibynnir arni i gyfiawnhau'r ymyrraeth â'r hawliau hyn fel ffordd gymesur o gyflawni'r nod cyfreithlon o ddiogelu dinasyddion Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys cydnabyddiaeth na chyfiawnhad dros ymyrryd â hawliau dynol. Hoffai'r Pwyllgor weld Llywodraeth Cymru yn nodi ei chyfiawnhad o ran sut mae'r Rheoliadau hyn yn ymgysylltu ond nad ydynt yn torri hawliau dynol.

Tan ddiwedd y cyfnod pontio, bydd Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod yn gymwys yn y Deyrnas Unedig. Mae mesurau diogelu cyfatebol i'r rhai uchod wedi eu cynnwys yn Siarter. Yn ddarostyngedig i egwyddor cymesuredd, gellir gwneud cyfyngiadau sy'n effeithio ar yr hawliau o dan y Siarter os ydynt yn angenrheidiol ac yn wirioneddol yn bodloni amcanion o fudd cyffredinol a gydnabyddir gan yr Undeb Ewropeaidd neu'r angen i amddiffyn hawliau a rhyddid eraill.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth:

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwyntiau technegol ac i'r trydydd a'r pedwerydd pwynt o ran rhinweddau.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 22 Mehefin 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth:** ***Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020***

Craffu Technegol

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

1.1. Mae cynghorwyr cyfreithiol y Senedd wedi tynnu sylw at wallau croesgyfeirio yn rheoliadau 9 a 17(10). Bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Rheoliadau er mwyn cywiro'r croesgyfeiriadau pan fydd y cyfle cyntaf yn codi.

Craffu ar Rinweddau

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

2.1. Mae cynghorwyr cyfreithiol y Senedd wedi cwestiynu'r diffiniad o "trwyddedai carthffosiaeth" ym mharagraff 17(2)(b) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau. Mae'r diffiniad yn cyfeirio at adrannau 17BA(6) a 219(1) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Fodd bynnag, nid yw adran 4(1) o Ddeddf Dŵr 2014, sy'n mewnosod adran 17BA yn Neddf 1991, ond mewn grym yn rhannol. Gan hynny, nid yw adran 17BA(6) wedi ei mewnosod yn Neddf 1991 eto. Fodd bynnag, mae'r diffiniad o "sewerage licensee" a fewnosodir yn adran 219(1) o Ddeddf 1991 (sydd hefyd yn cael ei fewnosod gan Ddeddf 2014) mewn grym ac yn diffinio'r term o dan sylw drwy gyfeirio at adran 17BA(6).

2.2. Mae'n ymddangos mai gwall sy'n gyfrifol am y ffaith nad yw adran 17BA(6) wedi ei chychwyn, a chafodd y Rheoliadau eu drafftio ar y ddealltwriaeth bod adran 17BA(6) mewn grym. Ond fel y mae cynghorwyr cyfreithiol y Senedd wedi ei awgrymu, rhaid i'r diffiniad o "trwyddedai carthffosiaeth" fod â'r ystyr a roddir i "sewerage licensee" yn y ddarpariaeth nad yw wedi ei chychwyn, fel y'i dehonglir drwy gyfeirio at adran 219(1) o Ddeddf 1991 a'r troednodyn a ddarperir yn y Rheoliadau. Ond mae'r sefyllfa hon yn golygu bod y gyfraith yn llai hygyrch nag y dylai fod.

**2.3.** Nid yw'r Llywodraeth yn meddwl y byddai atgynhyrchu'r diffiniad llawn yn y Rheoliadau yn datrys y mater, gan fod angen i'r ymadrodd "trwyddedai carthffosiaeth" fod â'r ystyr a roddir i "sewerage licensee" yng nghyd-destun Deddf 1991. Yr Ysgrifennydd Gwladol sydd â'r pŵer i gychwyn adran 4 o Ddeddf 2014, nid Gweinidogion Cymru (adran 94 o Ddeddf 2014). Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn bwriadu cysylltu â'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig i dynnu eu sylw at fater cychwyn adran 17BA(6).

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

3.1. Mae cynghorwyr cyfreithiol y Senedd wedi nodi bod y Rheoliadau yn ymwneud â'r hawl i fywyd preifat a theuluol o dan Erthygl 8 o'r Confensiwn ac y byddai'r Pwyllgor yn hoffi gweld Llywodraeth Cymru yn nodi ei chyfiawnhad o ran sut y mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â hawliau dynol ond nad ydynt yn eu torri.

3.2. Mae'r Llywodraeth yn derbyn nad oes llawer o amheuaeth y bydd y gofynion hunanynysu llym a osodir gan y Rheoliadau yn golygu ymyrraeth â'r hawl Erthygl 8. Hawl amodol yw hon, fodd bynnag, ac mae'r cyfiawnhad dros ymyrryd â'r hawl hon yn un cymharol eang ac yn cynnwys mesurau sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd a diogelu iechyd. Mae'r rhain yn cynnig nod dilys ar gyfer darpariaethau'r Rheoliadau.

3.3. Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod yr argyfwng Covid-19 presennol yn peri risg i iechyd y cyhoedd. Mae'r mesurau yn y Rheoliadau yn angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn cyflawni'r nod dilys o ddiogelu iechyd y cyhoedd. Gan hynny, mae cyfiawnhad dros unrhyw ymyrraeth â'r hawl Erthygl 8.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

19 Mehefin 2020

Annwyl Mick,

Ysgrifennaf i nodi y trafodaethau adeiladol sy'n cael eu cynnal fel rhan o gyfarfodydd rheolaidd pedairochrog y Gweinidogion Cyllid.

Ers dechrau'r argyfwng, rydym wedi cyfarfod bedair gwaith (27 Mawrth, 9 Ebrill, 30 Ebrill a 19 Mai) i drafod yr ymateb cyllidol i'r argyfwng. Mae'r cyfarfodydd wedi canolbwyntio ar ystod o faterion, yn amrywio o sicrwydd ynglŷn â'r cyllid a'r hyblygrwydd sydd ar gael i'r llywodraethau datganoledig i ymateb i'r argyfwng a lliniaru ei effaith, i ymyriadau penodol megis y Cynllun Cadw Swyddi. Yn yr wythnosau sydd i ddod, byddwn yn disgwyl i'n trafodaethau ganolbwyntio ar oblygiadau ariannol llacio'r cyfyngiadau symud a dechrau'r cyfnod adfer, yn ogystal â'r trafodaethau parhaus ynglŷn â hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

22 Mehefin 2020

Annwyl Gadeirydd

Mae'n bleser gennyf roi gwybod ichi fod dogfen ymgynghori sy'n ceisio sylwadau ar fersiwn ddrafft Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 wedi cael ei chyhoeddi heddiw ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cyn pob un o etholiadau cyffredinol y Senedd gwneir Gorchymyn Anghymhwyso sy'n dirymu'r Gorchymyn blaenorol ac sy'n nodi rhestr wedi'i diweddaru o swyddi sy'n anghymhwyso.

Byddai Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 yn dynodi swyddi y byddai eu deiliaid wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Senedd (ond nid rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd). Mae'r swyddi arfaethedig wedi eu disgrifio yn yr Atodlen i'r Gorchymyn drafft.

Mae swyddi eraill sy'n anghymhwyso, ynghyd â chategorïau o berson sydd wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Senedd, wedi eu rhagnodi gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Dylai'r Gorchymyn drafft gael ei ddarllen gyda'r darpariaethau perthnasol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio sylwadau ynglŷn â pha swyddi y dylid eu cynnwys yn y fersiwn ddrafft o Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020. Bydd yr ymgynghoriad ar y cynigion hyn ar agor tan 1 Medi 2020. Mae'r manylion ynglŷn â sut i ymateb ar gael yn y ddogfen ymgynghori.

Ar ôl ystyried yr ymatebion a ddaw i law, caiff y Gorchymyn drafft ei ddwyn ymlaen ar gyfer cael cymeradwyaeth gan y Senedd cyn iddo gael ei gyflwyno'n ffurfiol gerbron Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor yn nes ymlaen eleni.

Dymuniadau gorau

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Ymgynghoriad ar Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 drafft** |
| **DYDDIAD** | **22 Mehefin 2020** |
| **GAN** | **Y Gwir Anrh. Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru** |

Mae dogfen ymgynghori, sy'n ceisio sylwadau ar fersiwn ddrafft Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020, wedi cael ei chyhoeddi heddiw ar wefan Llywodraeth Cymru.

https://llyw.cymru/fersiwn-ddrafft-o-orchymyn-senedd-cymru-anghymhwyso-2020

Mae Adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor ddynodi swyddi penodol, fel bod deiliaid y swyddi hynny'n cael eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Senedd.

Mae'r Gorchymyn drafft yn dynodi swyddi y byddai eu deiliaid wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Senedd (ond nid rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd). Mae'r swyddi arfaethedig wedi eu disgrifio yn yr Atodlen i'r Gorchymyn drafft.

Mae swyddi eraill sy'n anghymhwyso, ynghyd â chategorïau o berson sydd wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Senedd, wedi eu rhagnodi gan Adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 1A iddi. Dylai'r Gorchymyn drafft gael ei ddarllen gyda'r darpariaethau hynny.

Byddai'r Gorchymyn drafft yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015, gan ddod i effaith o etholiad a gynhelir ar 5 Ebrill 2021, neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio sylwadau ynglŷn â pha swyddi y dylid eu cynnwys yn y fersiwn ddrafft o Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020. Rwy'n awyddus i gael barn rhanddeiliaid, a byddaf yn ystyried eu sylwadau'n ofalus cyn paratoi'r fersiwn ddrafft derfynol o'r Gorchymyn. Bydd yr ymgynghoriad ar y cynigion hyn ar agor tan 1 Medi 2020. Mae'r manylion ynglŷn â sut i ymateb ar gael yn y ddogfen ymgynghori.

Ar ôl ystyried yr ymatebion a ddaw i law, caiff y Gorchymyn drafft ei ddwyn ymlaen ar gyfer cael cymeradwyaeth gan y Senedd cyn iddo gael ei gyflwyno'n ffurfiol gerbron Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon